

Ymgynghoriad ar reoleiddio busnesau optegol

Hydref 2024

Trosolwg.....	3
Adran 1: Y sefyllfa bresennol, risgiau a buddion diwygio	5
Adran 2: Yr Ymgynghoriad	10
A: Cwmpas y rheoliad	11
B: Modelau sicrwydd rheoleiddiol	13
C: Dull gorfodi a sancsiynau	17
CH: Iawn i ddefnyddwyr	18
D: Cwestiynau Cyffredinol	20
Adran 3: Sut i ymateb i'r ymgynghoriad.....	23
Atodiad 1: Rheoleiddio busnesau a swyddogaethau cyfyngedig	24
Atodiad 2: Cwmpas rheoleiddio	25
Atodiad 3: Gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru.....	39
Atodiad 4: Pennaeth Ymarfer Optegol.....	43
Atodiad 5: Dull gorfodi a sancsiynau.....	52
Atodiad 6: Gwneud iawn i ddefnyddwyr.....	64

Trosolwg

Beth ydym ni'n ei wneud

1. Y Cyngor Optegol Cyffredinol (y Cyngor) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd rydym yn cofrestru tua 33,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr optometryddion, myfyrwyr optegwyr cyflenwi a busnesau optegol. Gelwir y grwpiau ar ein cofrestr yn gofrestreion. Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan:
[<https://www.optical.org/>](https://www.optical.org/)
2. Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:
 - pennu'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, perfformiad ac ymddygiad optegol;
 - cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestriad'
 - cynnal cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforedig sy'n addas i gyflawni busnes fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi;
 - ymchwilio a gweithredu pan allai addasrwydd cofrestrwyr i ymarfer, hyfforddi neu gyflawni busnes gael ei amharu.
3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau ar newidiadau i'n fframwaith ar gyfer rheoleiddio busnesau. Mae Adran 9 Deddf Optegwyr 1989 ("y Ddeddf") yn darparu i'r Cyngor gofrestru cyrff corfforedig sy'n cyflawni gofynion cymhwysedd penodol (gan gynnwys ynghylch cofrestriad ei gyfarwyddwyr a natur ei weithgareddau). O dan adran 28 y Ddeddf, mae'n drosedd i fusnes anghofrestredig ddefnyddio teitl, ychwanegiad neu ddisgrifiad sy'n awgrymu cofrestriad y Cyngor ar gam, h.y. mae cofrestriad gyda'r Cyngor yn orfodol i gyrff corfforedig sy'n defnyddio teitl gwarchodedig.
4. Mae ein system bresennol yn creu cymhwysiad anghyson o'n pwerau rheoleiddiol ar gyfer busnesau ac mae ein [hymchwili](#) yn amcangyfrif nad yw tua hanner yr holl fusnesau optegol yn gorfod, neu'n gallu cofrestru gyda'r Cyngor. Pan fyddwn yn cyfeirio at fusnesau yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn cyfeirio at holl ddarparwyr gwasanaethau optegol, gan gynnwys y rhai nad ydynt o bosibl yn cael eu hystyried yn fusnesau optegol traddodiadol e.e. clinigau llygaid prifysgolion ac elusennau.
5. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn rhwng XX Hydref 2024 a XX Ionawr 2025. Gallwch ymateb naill ai drwy ddefnyddio ein platfform ymgynghori ar-lein ([Prosiect: Rheoleiddio busnesau | Cyngor Optegol Cyffredinol](#)) neu drwy anfon e-bost i consultations@optical.org

Pam ein bod yn gwneud hyn yn awr

6. Os bydd rhaglen diwygio deddfwriaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yn mynd rhagddi, byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i ddiweddarau ein deddfwriaeth a'r agweddau ar y Ddeddf sy'n berthnasol i'r sector optegol yn unig. Dechreuodd yr adolygiad o'n deddfwriaeth yn 2022 yn ein [galwad am dystiolaeth ar Ddeddf Optegwyr 1989 a pholisïau cysylltiedig y Cyngor](#) a gyhoeddwyd gennym fel y cam cyntaf mewn rhaglen waith i sicrhau bod ein deddfwriaeth a'r polisïau cysylltiedig yn addas ar gyfer y dyfodol.
7. Fel rhan o'r alwad am dystiolaeth yn 2022, fe wnaethom ddychwelyd at y maes rheoleiddio busnes a chomisiynwyd gwaith ymchwil pellach gan Europe Economics o'r enw [Mapio Busnesau Optegol](#). Cadarnhaodd yr ymgynghoriad bod cefnogaeth gref gan ein rhanddeiliaid i ymestyn rheoleiddio busnes i bob busnes sy'n cynnal swyddogaethau cyfyngedig. Yn ein [hymateb i'r ymgynghoriad](#) yn 2023 fe wnaethom ddweud y byddem yn datblygu cynigion ac yn ymgynghori ar fframwaith wedi'i ddiweddarau ar reoleiddio busnes.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

8. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar agor am 13 wythnos.
9. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r holl sylwadau rydym wedi'u derbyn ac yn penderfynu sut i fwrw ymlaen â'n cynigion ar gyfer rheoleiddio busnes. Byddwn yn cynhyrchu dogfen sy'n crynhoi'r ymatebion a dderbyniwn i'r ymgynghoriad a sut yr ydym yn cynnig y bydd y fframwaith newydd i reoleiddio busnes yn gweithio. Byddwn yn gofyn i'n Cyngor gymeradwyo'r ddogfen hon cyn ei chyhoeddi.
10. Er ein bod yn arwain yr ymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r sector drwy'r ymgynghoriad hwn, nid ein cyfrifoldeb ni fydd cytuno ar newidiadau i'r Ddeddf ond cyfrifoldeb y Senedd, a bydd cyflymder a chanlyniad unrhyw newidiadau a geisir i reoleiddio busnes yn cael eu penderfynu gan Lywodraeth y DU.

Adran 1: Y sefyllfa bresennol, risgiau a buddion diwygio

Nifer a natur busnesau optegol y DU

11. I gefnogi'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer diwygiadau deddfwriaethol fe wnaethom gomisiynu ymchwil gan Europe Economics o'r enw [Mapio Busnesau Optegol](#). Cadarnhaodd hyn nad oes unrhyw gyfrifiad pendant o'r nifer o fusnesau optegol, ond darparodd amcangyfrifon defnyddiol yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).
12. Rydym wedi diweddarau'r ffigurau yn ymchwil Europe Economics gan ddefnyddio data diweddaraf ONS. Yn gryno, awgryma hyn:
 - Yn 2023, roedd 5,040 o fusnesau optegol yn gweithredu yn y DU, gyda thua 4,365 yn gweithredu yn Lloegr. Roedd gan yr Alban 335 o fusnesau, Gogledd Iwerddon 170 ac roedd gan Gymru 165.
 - Adnewyddodd 2,852 o gyrff corfforedig eu cofrestriad gyda'r Cyngor yn ymarfer adnewyddu 2024, a oedd yn cynrychioli 57% o gyfanswm o fusnesau optegol a amcangyfrifwyd gan y SYG. Mae nifer y busnesau sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor, fel cyfran o'r holl fusnesau, wedi cynyddu dros amser, ond mae llawer o fusnesau yn parhau i fod y tu allan i'r rheoliad hwn.
 - Mae bron pob un o'r busnesau (98.2%) yn ficro-fentrau neu'n fentrau bach, gyda newid o ficro-fentrau tuag at fentrau bach dros amser. Mae micro-fentrau yn fwy cyffredin yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.
 - Mae 86.2% o fusnesau optegol y DU yn gwmnïau a gwelwyd newid clir tuag at gorffori dros amser. Mae perchnogaeth unigol a phartneriaethau yn fwy cyffredin yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Deddfwriaeth bresennol

13. Mae'r deddfwriaeth ynghylch rheoleiddio busnesau'r Cyngor yn gymhleth ac nid yw'n darparu ar gyfer system reoleiddio glir a chyson ar gyfer busnesau optegol ar hyn o bryd.
14. Mae Adran 9 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gofrestru gyrff corfforedig sy'n bodloni gofynion cymhwysedd penodol (gan gynnwys ynghylch cofrestriad eu cyfarwyddwyr a natur eu gweithgareddau). O dan adran 28 o'r Ddeddf, mae'n drosedd i fusnes heb gofrestru i ddefnyddio teitl, ychwanegiad neu ddisgrifiad sy'n awgrymu cofrestriad gyda'r Cyngor yn gelwyddog, h.y. mae cofrestriad gyda'r Cyngor yn orfodol i gyrff corfforedig sy'n defnyddio teitl gwarchodedig.
15. Nid yw'n bosibl cofrestru busnesau sy'n ymarferwyr unigol neu'n bartneriaethau, ac nid yw'n orfodol i gyrff corfforedig gofrestru'n wirfoddol oni

fyddant yn defnyddio teitl gwarchodedig. Yn ogystal, gall cyrff corfforedig gofrestru os nad ydynt yn defnyddio teitl gwarchodedig ond mae'n rhaid bod ganddynt fwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig.

Y risgiau yr ydym eisiau mynd i'r afael â hwy

16. Mae profiad y claf yn dibynnu nid yn unig ar yr unigolyn sy'n darparu'r gofal ond hefyd yr amgylchedd clinigol lle darperir y gofal, a gall ystyriaethau masnachol effeithio ar ansawdd y gofal. Dangosodd [ymchwil](#) a gomisiynwyd gan Europe Economics y risgiau sy'n gysylltiedig â'n system reoleiddio bresennol a sut y gallai hyn effeithio ar ofal a chanlyniadau cleifion. Fe wnaethant ganfod bod agweddau ar ymarfer optegol sy'n berthnasol i ofal cleifion yn cael eu dylanwadu gan arferion busnesau yn hytrach nag ymarferwyr unigol, a nododd y canlynol:

- yr amgylchedd busnes: dylai hyn roi ymreolaeth i ymarferwyr ymgymryd â'u gweithgareddau proffesiynol hyd eithaf eu gallu ac yn unol â safonau proffesiynol;
- llywodraethu clinigol: mae angen systemau a phrotocolau i sicrhau llywodraethu clinigol da, gan gynnwys cyfathrebu clir ymhlith staff, goruchwyliaeth ddigonol o gynorthwyyr a myfyrwyr; proses gyson o reoli gweithwyr locwm, prosesau i ddelio â chwythu'r chwiban a chwynion defnyddwyr; a chadw cofnodion priodol;
- buddsoddiad: mae angen buddsoddiad digonol mewn cyfarpar a hyfforddiant staff i sicrhau bod y lefel o ofal yn gyfredol;
- ystyriaethau masnachol: gallai busnes flaenoriaethu ymarferion lleihau costau neu gymhellion creu incwm dros ofal diogel i gleifion. Gallai'r rhain gynnwys pwysau ar staff i gyflawni targedau gwerthu, amseroedd profi golwg afrealistig neu ddiffyg buddsoddiad mewn cyfarpar;
- cyfathrebu gyda defnyddwyr: yn ogystal â risgiau i iechyd a diogelwch cleifion, dylai busnes gyfathrebu'n glir eu prisiau gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau fel profion llygaid drwy eu hysbysebion ac ar eu gwefan.

17. Daeth yr ymchwil i'r casgliad mai ffactor allweddol wrth liniaru risgiau oedd cymhwyso rheoleiddio a throsolwg y Cyngor yn gyson. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn a gwella diogelwch y cyhoedd a hyder yn y system, rydym am ddiwygio ein deddfwriaeth fel y bydd yn rhaid i bob busnes sy'n cyflawni'r swyddogaethau cyfyngedig penodedig a restrir ym mharagraff 23 o'r ddogfen ymgynghori hon gofrestru gyda'r Cyngor.

18. Amlygodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol hefyd, yn eu hadroddiad [Safer care for all](#), gyfyngiadau dull gweithredu presennol y Cyngor a'r angen i fynd i'r afael â deddfwriaeth ddarfodedig a bylchau rheoleiddio. Dywedwyd bod y

system bresennol yn llesteirio gallu'r Cyngor i reoleiddio'r sector cyfan yn effeithiol ac nid oes gan gleifion y sicrwydd bod pob busnes optegol yn cydymffurfio â safonau rheoleiddiol.

Buddion ymestyn rheoleiddio busnesau

19. Rydym wedi nodi'r buddion canlynol o ddiwygio dulliau rheoleiddio busnesau optegol. Mae ein ffocws ar wella diogelwch y cyhoedd a buddion i'r cyhoedd. Fodd bynnag, credwn fod buddion hefyd i'r system gofal llygaid ehangach, i fusnesau a gweithwyr proffesiynol.
20. Ymhlith y *buddion i gleifion a'r cyhoedd* mae:
 - Cau'r bwlch rheoleiddiol sy'n amlygu cleifion i niwed posibl oherwydd mae rhai busnesau y tu allan i'r rheoliadau ar hyn o bryd. Mae'r model presennol wedi creu system reoleiddio ddarfodedig, gymhleth a thameidiog, nad yw'n cael ei harwain gan ddull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer diogelu'r cyhoedd ond sy'n ddibynnol ar strwythur y busnes yn hytrach na'r gweithgareddau clinigol a gyflawnir.
 - Sicrhau rheoleiddiad nid yn unig y gweithwyr gofal llygaid proffesiynol sy'n darparu gofal ond yr amgylchedd clinigol a masnachol lle darperir y gofal. Mae ymchwiliadau cyhoeddus, yn gwbl briodol, wedi rhoi mwy o ffocws ar bwysigrwydd systemau a diwylliant wrth ddarparu gofal diogel.
 - Atgyfnerthu trefniadau llywodraethu sefydliadol. Byddai ein cynnig ar gyfer pennaeth ymarfer optegol mewn busnes yn sicrhau y byddai gan rywun y cyfrifoldeb cyffredinol o weithredu polisïau a phrosesau effeithiol.
 - Lleihau'r pwysau ar feddygon teulu ac ysbytai a gwella gofal i gleifion drwy gefnogi cynlluniau i symud mwy o ofal llygaid i ofal sylfaenol. Bydd system llywodraethu clinigol sy'n gryfach a mwy effeithiol yn helpu i feithrin hyder yn y system sy'n golygu y gall optometryddion ac optegwyr cyflenwi roi diagnosis, trin a rheoli cyflyrau llygaid cyffredin mewn lleoliadau yn y gymuned ac ar y stryd fawr. Mae ymchwil y Cyngor¹ yn pwysleisio mai dim ond un o bob tri o bobl fyddai'n mynd i bractis optegwyr / optometrydd fel eu man cyswllt cyntaf pe byddai ganddynt broblem llygaid, tra bod y Gymdeithas Optometryddion yn amcangyfrif bod 1.35 miliwn o bobl yn ymweld â'u meddyg teulu bob blwyddyn ar gyfer cyflyrau y mae optometryddion wedi'u hyfforddi a'u cymhwyso i'w rheoli².

¹ [Ymchwil canfyddiadau'r cyhoedd Cyngor Optegol Cyffredinol](#)

² [Miliwn o apwyntiadau \(aop.org.uk\)](#)

- System wedi'i symleiddio ar gyfer cleifion a'r cyhoedd sy'n cyfateb â'u disgwyliadau. Ni fydd llawer yn ymwybodol o'r ffaith bod yr un gwasanaethau gofal llygaid yn cael eu darparu gan ystod o fusnesau optegol wedi'u rheoleiddio a heb eu rheoleiddio.
- Gwell mynediad at iawn i ddefnyddwyr. Cynigiwn y bydd gan bob defnyddiwr sy'n defnyddio cofrestreion busnes fynediad at gynllun gwneud iawn annibynnol.

21. Ymhlith y *buddion busnesau optegol* mae:

- Fframwaith mwy cyson a theg. Bydd cynnwys pob busnes optegol sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig o fewn y rheoliadau yn sicrhau y bydd pob busnes yn ddarostyngedig i'r un safonau a gofynion rheoleiddio ac yn cyfrannu at y costau rheoleiddio.
- Mynd i'r afael ag anfanteision cystadleuol yn y system bresennol. Nid yw rhai busnesau yn gallu cael eu rheoleiddio oherwydd strwythur eu busnes, sy'n golygu na allant fwynhau manteision rheoleiddio.
- System reoleiddio fodern, gydag unrhyw ofynion darfodedig a beichiau ar fusnesau wedi'u diddymu, er enghraifft y gofyniad presennol i rai busnesau gael mwyafrif o gyfarwyddwyr wedi cofrestru gyda'r Cyngor.
- Bydd gwell llywodraethu clinigol ar draws y sector yn helpu busnesau i ddarparu gwasanaethau gwell ym maes gofal sylfaenol, a'u galluogi i dyfu drwy ddarparu mwy o wasanaethau i gleifion a gwneud y gorau o botensial y gweithlu optegol. Mae [ymchwil <https://optical.org/media/o23abb51/goc-business-registrant-survey-report-final.pdf>](https://optical.org/media/o23abb51/goc-business-registrant-survey-report-final.pdf) a gomisiynwyd gennym yn ddiweddar yn dangos y disgwylir i fusnesau, ddyblu eu darpariaeth o wasanaethau glawcoma a rhagnodi annibynnol i gleifion dros y ddwy flynedd nesaf a disgwylir iddynt gynyddu eu defnydd o dechnolegau digidol a thechnolegau diagnostig, gan gynnwys y defnydd o ddeallusrwydd artifisial a chynnal profion llygaid o bell.

22. Ymhlith y *buddion i'r gweithlu optegol* mae:

- Os bydd rheoleiddio busnes yn cefnogi uchelgeisiau'r llywodraeth i symud mwy o waith i ofal sylfaenol, bydd yn cefnogi cofrestreion unigol i weithio i'w llawn botensial.
- Bydd ei gwneud yn ofynnol i fusnesau optegol gofrestru gyda'r Cyngor a dilyn safonau rheoleiddiol yn helpu i ail-gydbwyso cyfrifoldebau rhwng busnes a'i gyflogaion. Bydd ein cynigion ar gyfer pennaeth ymarfer optegol yn helpu i sicrhau nad yw cofrestreion unigol yn cael eu dwyn i gyfrif yn annheg am faterion sy'n gysylltiedig â systemau, polisïau a phrosesau nad ydynt yn eu rheoli.

- Byddai cymhwyso safonau busnes y Cyngor yn gyson yn fuddiol i gyflogeion oherwydd byddai'n darparu amgylchedd gwaith mwy safonol a diogel, er enghraifft, sicrhau bod cyfarpar yn addas i'r diben, bod trefniadau goruchwyllo digonol ar gyfer staff, a chefnogi cofrestreion i gyflawni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Rydym yn atgyfnerthu ein safonau i sicrhau bod busnesau yn darparu mwy o gefnogaeth i staff sy'n profi bwlio, aflonyddwch, camdriniaeth a gwahaniaethu yn y gwaith.

Adran 2: Yr Ymgynghoriad

23. Man cychwyn yr ymgynghoriad hwn yw'r ymateb i'r galwad am dystiolaeth. Gwnaed cyfres o benderfyniadau gan ein Cyngor nad ydym yn ailymweld â hwy yn yr ymarfer ymgynghori hwn. Yn lle hynny, rydym yn ceisio barn ar y fframwaith y byddwn yn ei ddefnyddio i reoleiddio busnesau optegol. Y penderfyniadau polisi perthnasol oedd:
- Byddai'n ofynnol i fusnesau gofrestru gyda'r Cyngor os ydynt yn darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig (mae gwybodaeth bellach ar gael yn atodiad 1) yn y Ddeddf, sef:
 - i. profi golwg;
 - ii. gosod lensys cyffwrdd;
 - iii. cyflenwi lensys cyffwrdd (lensys cyffwrdd presgripsiwn a chosmetig di-nerth);
 - iv. gwerthu sbectolau i blant o dan 16 oed a'r rhai y cofrestrwyd bod ganddynt nam ar eu golwg neu nam difrifol ar eu golwg;
 - peidio ceisio newid unrhyw swyddogaethau cyfyngedig penodedig yn y Ddeddf ond cynnig dull i'r Cyngor wneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol i addasu'r rhain heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol;
 - cynnig amcan eilaidd ychwanegol ar gyfer diogelu'r cyhoedd ar wyneb y deddfwriaeth, gan adlewyrchu natur risgiau i'r cyhoedd yn y sector optegol a'n cynlluniau i ehangu rheoleiddio busnesau.
24. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cynigion ar sut y byddai fframwaith rheoleiddio busnes wedi'i ddiweddarau yn gweithio o dan bedwar maes:
- cwmpas rheoleiddio;
 - modelau sicrwydd rheoleiddiol;
 - dull gorfodi a sancsiynau;
 - iawn i ddefnyddwyr.
25. Nodir y cynigion hyn yn yr atodiadau i'r papur hwn, ac rydym yn eich annog i ddarllen yr atodiadau hynny cyn ymateb i'r cwestiynau.
26. Rydym yn cydnabod y bydd gan randdeiliad ddiddordeb hefyd yn y ffioedd cofrestru a godir ar fusnesau. Mae ffioedd y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn oherwydd bydd diwygiadau arfaethedig y llywodraeth i reoleiddio gofal iechyd yn rhoi cwmpas eang i reoleiddwyr gofal iechyd bennu ffioedd. Byddwn yn adolygu ein strwythur ffioedd fel rhan o strategaeth y Cyngor ar gyfer 2025-30, a byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar opsiynau fel rhan o'r gwaith hwn.

27. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi'r egwyddorion sy'n cefnogi sawl cynnig, yr ydym yn ceisio barn arnynt er mwyn gallu llunio barn wybodus cyn cwblhau'r rhain. Felly, nid yw'n bosibl nodi manylion llawn y cynigion ar y cam hwn, ond byddwn yn gwneud gwaith pellach wrth i ni symud ein cynigion yn eu blaenau, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar yr amser priodol. Ymhellach, rhagwelir y bydd y gwaith o ddiwygio'r Ddeddf Optegwyr ar lefel uchel, a fydd yn galluogi rheoleiddwyr i lunio rheolau manwl, a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.
28. Bydd angen newid deddfwriaethol ar gyfer unrhyw fodel terfynol rheoleiddio busnes, ac ar y cam hwn cynhelir ymgynghoriad pellach ar y deddfwriaeth, o dan arweiniad y llywodraeth.
29. Croesawyd consensws cryf rhanddeiliaid o'r angen i bob busnes gynnal y swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu cofrestru gyda'r Cyngor yn fawr. Wrth ddatblygu'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ddiolchgar am y cyngor a dderbyniwyd gan ein pwyllgorau cynghori statudol, gan gynnwys y Pwyllgor Cwmnïau. Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp cyfeirio rhanddeiliaid³ i hysbysu datblygiad cynigion ac rydym yn ddiolchgar am eu mewnwediadau.

A: Cwmpas y rheoliad

30. Rydym yn cynnig rheoleiddio pob endid sy'n darparu'r swyddogaethau cyfyngedig a nodir ym mharagraff 23 oni bai eu bod wedi'u heithrio, gan gynnwys sefydliadau nid-er-elw, er enghraifft clinigau llygaid prifysgolion ac elusennau, yn ogystal â busnesau. Rydym wedi nodi ein cynigion ar beth ddylai fod o fewn cwmpas y gwaith rheoleiddio busnes yn atodiad 2.
31. Rydym yn cynnig na fydd ein fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer rheoleiddio busnes yn cynnwys gofyniad i rai cyrff corfforedig gael mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig (fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd ar gyfer rhai busnesau o dan adran 9 o'r Ddeddf). Rydym wedi nodi ein rhesymau dros ddileu'r gofyniad hwn yn atodiad 3..

C1. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai practisau meddygon teulu ac ysbytai (GIG ac annibynnol) sy'n cynnal y swyddogaethau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 23 gael eu heithrio o ofyniad rheoleiddio busnes y Cyngor?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

³ Roedd hyn yn cynnwys Cymdeithas Optegwyr Cyflenwi Prydain (ABDO), y Gymdeithas Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi Annibynnol (AIO), Cymdeithas yr Optometryddion (AOP), Coleg yr Optometryddion a Ffederasiwn yr Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi (FODO) – Cymdeithas y Darparwyr Gofal Llygaid. Rydym hefyd wedi cynnal cyfarfodydd gydag elusennau, rheoleiddwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant i ddeall sut y gallai ein cynigion effeithio ar eu gwaith neu eu cylch gwaith.

- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion).

C2. Ydych chi'n credu y dylai'r unedau masnachol sy'n gweithredu mewn practisau meddygon teulu ac ysbytai sy'n darparu'r swyddogaethau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 23 gael eu rheoleiddio gan y Cyngor?

- a) Ydw
- b) Nac ydw
- c) Ddim yn siŵr

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion).

C3. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r elusennau sy'n darparu'r swyddogaethau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 23 gael eu rheoleiddio gan y Cyngor?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai clinigau llygaid prifysgolion sy'n darparu'r swyddogaethau cyfyngedig a restrir ym mharagraff 23 gael eu rheoleiddio gan y Cyngor?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau

- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C5. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod gan y Cyngor bŵer disgresiwn i eithrio busnesau penodol rhag cofrestru?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C6. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddileu'r gofyniad i rai cyrff corfforedig fod â mwyafrif o gyfarwyddwyr cofrestredig?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

B: Modelau sicrwydd rheoleiddiol

32. Rydym yn cynnig model sicrwydd rheoleiddiol sy'n cynnwys gofyniad i gofrestrwyr busnes enwebu pennaeth ymarfer optegol. Byddai'r pennaeth ymarfer optegol yn swyddog cofrestredig gyda chyfrifoldeb cyffredinol am

ymddygiad y busnes yn unol â threfniadau rheoleiddiol y Cyngor ac ymwneud â'r systemau, polisïau a diwylliant sy'n cael eu rheoli ar frig y busnes. Rydym wedi nodi ein cynigion ar gyfer y rôl yn atodiad 4.

C7. A ddylai fod yn ofynnol i bob busnes benodi pennaeth ymarfer optegol?

- a) Dylai
- b) Na ddylai
- c) Ddim yn siŵr

Os oes yna fusnesau nad ydych yn credu y dylai'r trefniant hwn fod yn berthnasol iddynt, esboniwch pa rai a'ch rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C8. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer y pennaeth ymarfer optegol?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C9. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r pennaeth ymarfer optegol fod yn gyfrifol am ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer lleoliadau hyfforddiant?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C10. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r pennaeth ymarfer optegol fod yn gofrestrydd unigol cwbl gymwys gyda'r Cyngor?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r pennaeth ymarfer optegol fod yn unigolyn a gyflogir gan y busnes?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai unigolyn fod yn bennaeth ymarfer optegol ar gyfer busnesau lluosog?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod gan y Cyngor bŵer i gyflwyno cyfres o safonau ymddygiad ar wahân ar gyfer y pennaeth ymarfer optegol. A ddylai hyn fod yn ofyniad yn y dyfodol?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r Cyngor nodi yn y rheolau/canllawiau nodweddion hanfodol pennaeth ymarfer optegol y dylai busnesau fodloni eu hunain eu bod yn cael eu cyflawni?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C15. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynigion i enw'r pennaeth ymarfer optegol gael ei restru ar gofrestr busnes y Cyngor?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau

d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C16. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i unigolion sy'n gweithredu fel pennaeth ymarfer optegol gael anodiad yn erbyn eu cofnod ar gofrestr unigolion y Cyngor?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C: Dull gorfodi a sancsiynau

33. Er nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw risgiau uniongyrchol i ddiogelu'r cyhoedd o ran y pwerau sydd gennym ar hyn o bryd, credwn y gellid gwella ein pwerau gorfodi a sancsiynau, gan roi gallu'r Cyngor i ddwyn cofrestreion busnes i gyfrif. Rydym yn awgrymu y gellid gwella ein pwerau drwy:
- bod â'r gallu i osod cosb ariannol heb ei chapio ar gofrestreion busnes wedi'i hategu gan ganllaw sancsiynau cyfredol;
 - cyflwyno pŵer i ymweld â busnes fel rhan o'r broses addasrwydd i gynnal proses fusnes (D.S. nid ydym yn cynnig system o archwiliadau rheolaidd neu arferol).
34. Rydym wedi nodi ein cynigion ar gyfer gwella ein dull gorfodi a sancsiynau yn atodiad 5.

C17. Mewn cysylltiad â phŵer y Cyngor i bennu cosb ariannol ar gofrestreion busnes, pa opsiwn a ffafrir gennych?

- a) Y pŵer i osod cosb ariannol heb ei chapio
- b) Cysylltu'r gosb ariannol â throsiant

- c) Uchafswm newydd (sy'n disodli'r uchafswm cosb ariannol bresennol o £50,000)

Esboniwch eich ateb, gan gynnwys unrhyw fanteision, anfanteision ac effeithiau.

C18. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai cyflwyno pŵer i ymweld â busnesau fel rhan o'r broses addasrwydd i gynnal proses fusnes roi mwy o bŵer i'r Cyngor ddiogelu cleifion a'r cyhoedd?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

CH: iawn i ddefnyddwyr

35. Rydym yn ystyried a oes angen newidiadau i'n cynllun presennol iawn i ddefnyddwyr presennol – y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) – i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu'n ddigonol. Mae hyn yn cynnwys a ddylai fod yn orfodol i fusnesau cofrestredig gymryd rhan yn yr OCCS ac a allai'r OCCS wneud penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol ar fusnesau. Rydym hefyd yn ceisio barn ar sut y dylid darparu ac ariannu'r cynllun. Rydym wedi nodi ein cynigion ar gyfer system well o wneud iawn i ddefnyddwyr yn atodiad 6.

C19. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn orfodol i gofrestreion busnes gymryd rhan yn y cynllun iawn i ddefnyddwyr?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C20. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod gan y cynllun iawn i ddefnyddwyr y pwerau i wneud penderfyniadau sy'n gyfreithiol rwymol ar fusnesau?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C21. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i barhau gyda'n model presennol o gyflenwi cynllun iawn i ddefnyddwyr h.y. darparwr unigol drwy gystadleuaeth ar gyfer y model marchnad?

- a) Cytuno'n gryf
- b) Cytuno i raddau
- c) Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ch) Anghytuno i raddau
- d) Anghytuno'n gryf

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

C22. Sut y dylid ariannu'r cynllun iawn i ddefnyddwyr?

- a) Pob busnes yn cyfrannu drwy'r ffi gofrestru
- b) Model talu fesul defnydd lle bydd y busnes yn talu am unrhyw gŵyn a wneir yn eu herbyn sy'n cael ei ystyried gan y cynllun
- c) Cytuniad o'r ddau fodel uchod
- ch) Arall (nodwch)
- d) Ddim yn siŵr

Esboniwch eich rhesymeg (gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn ein cynigion a sut y gellid eu lliniaru).

D: Cwestiynau Cyffredinol

36. Isod rydym wedi nodi rhai cwestiynau cyffredinol i chi eu hystyried.

Asesiad effaith

37. Rydym wedi cynhyrchu asesiad effaith drafft ar y cynnig cyffredinol i ymestyn y rheoliad i bob busnes sy'n darparu'r swyddogaethau cyfyngedig penodedig a restrir ym mharagraff 23. Mae gennym ddiddordeb ym marn rhanddeiliaid am ein hasesiad. Byddwn yn darparu asesiad effaith mwy manwl ac wedi'i gostio ar ôl i ni ystyried y safbwyntiau a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad a thrafod cyfres o gynigion gyda'r llywodraeth.

C23. A oes unrhyw agweddau o'n cynigion a allai wahaniaethu yn erbyn rhanddeiliaid â nodweddion penodol? (Dylech ystyried oedran, rhyw, hil, crefydd neu gred, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rhywedd, mynegiant rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfrifoldebau gofalu neu unrhyw nodweddion eraill.)

- a) Oes
- b) Nac oes
- c) Ddim yn siŵr

Os oes, esboniwch eich rhesymau.

C24. A oes unrhyw agweddau o'n cynigion a allai gael effaith gadarnhaol ar rhanddeiliaid â nodweddion penodol? (Dylech ystyried oedran, rhyw, hil, crefydd neu gred, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rhywedd, mynegiant rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, cyfrifoldebau gofalu neu unrhyw nodweddion eraill.)

- d) Oes
- e) Nac oes
- a) Ddim yn siŵr

Os oes, esboniwch eich rhesymau.

Yr iaith Gymraeg

38. O dan safonau'r iaith Gymraeg, mae'n ofynnol i ni ystyried pa effeithiau, os o gwbl (cadarnhaol neu niweidiol), y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg a phedio trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, p'un a yw'r effeithiau hynny yn gadarnhaol neu'n niweidiol.
39. Mae'r cynigion yn y ddogfen hon yn gysylltiedig â fframwaith rheoleiddio busnes a fydd yn berthnasol i bob busnes optegol ar draws y DU, gan gynnwys yng Nghymru. Rydym wedi asesu na fydd y cynigion hyn yn cael unrhyw effeithiau ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg nac yn effeithio ar y driniaeth o'r Gymraeg.

C25. A fydd y newidiadau arfaethedig yn cael unrhyw effeithiau, cadarnhaol neu negyddol, ar:

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg

(ii) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

- a) Bydd
- b) Na fydd
- c) Ddim yn siŵr

Os bydd, esboniwch eich rhesymau.

C26. A fyddai'n bosibl diwygio'r newidiadau arfaethedig er mwyn iddyn nhw gael effeithiau cadarnhaol, neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar:

(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg

(ii) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

- a) Byddai
- b) Na fyddai
- c) Ddim yn siŵr

Os byddai, esboniwch sut.

C27. A fyddai'n bosibl diwygio'r newidiadau arfaethedig fel na fyddent yn cael effeithiau negyddol, neu fel y byddent yn cael llai o effeithiau negyddol, ar:

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r iaith Gymraeg

(ii) peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

d) Byddai

e) Na fyddai

a) Ddim yn siŵr

Os byddai, esboniwch eich rhesymau.

Unrhyw feysydd eraill

40. Hoffem i randdeiliaid roi gwybod i ni am unrhyw feysydd eraill nad ydym wedi'u nodi yn y ddogfen hon y maent yn credu sy'n berthnasol i reoleiddio busnes.

C28. Rhowch wybod i ni am unrhyw feysydd eraill sy'n berthnasol i reoleiddio busnes nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

Adran 3: Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

41. Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor o **XX** Hydref 2024 i **XX** Ionawr 2025.
42. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi eich ymatebion yn ein [hwb ymgynghori](#) er mwyn i ni allu casglu gwybodaeth amdanoch chi neu eich sefydliad ac a allwn gyhoeddi eich ymateb
43. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl, gallwch ymateb i'r ymgynghoriad drwy anfon e-bost i consultations@optical.org

Atodiad 1: Rheoleiddio busnesau a swyddogaethau cyfyngedig

44. Mae'r swyddogaethau cyfyngedig a eglurir isod yn ymwneud â pharagraff 23 o'r ddogfen ymgynghori sy'n nodi'r swyddogaethau cyfyngedig a fydd wedi eu cynnwys yn rhan o fodel newydd ar gyfer rheoleiddio busnesau optegol.
45. Dim ond optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig a all gynnal profion golwg, ac mae darpariaeth arbennig ar gyfer myfyrwyr (adran 24 o'r Ddeddf).
46. Dim ond optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig a all ffitio lensys cyffwrdd, ac mae darpariaeth arbennig ar gyfer myfyrwyr (adran 25 o'r Ddeddf).
47. Gellir gwerthu lensys cyffwrdd gan neu o dan oruchwyliaeth optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig, neu o dan gyfarwyddyd cyffredinol optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig, os bydd y cyflenwr yn cael y fanyleb wreiddiol yn gyntaf neu'n gwirio manylion y fanyleb gyda'r presgripsiynydd⁴ (adran 27 o'r Ddeddf).
48. Dim ond gan neu o dan oruchwyliaeth optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig y gellir gwerthu lensys cyffwrdd dim pŵer (adran 27 o'r Ddeddf).
49. Os yw'r defnyddiwr o dan 16 mlwydd oed neu wedi ei gofrestru'n un sydd ag amhariad ar y golwg / amhariad difrifol ar y golwg, dim ond gan neu o dan oruchwyliaeth optegydd cyflenwi cofrestredig, optometrydd cofrestredig neu ymarferydd meddygol cofrestredig y gellir gwerthu sbectols (adran 27 o'r Ddeddf ac erthyglau 2 a 3 o Orchymyn Gwerthu Teclynnau Optegol 1984).

⁴ Gweler ein [datganiad ar wirio manylebau lensys cyffwrdd](#) mewn perthynas â chopïau o fanylebau.

Atodiad 2: Cwmpas rheoleiddio

Cefndir

50. Mae'r sector optegol yn y DU yn un amrywiol a rhaid i unrhyw system rheoleiddio busnesau fod yn effeithiol ar gyfer y sector cyfan. Rydym wedi ystyried y gwahanol fathau o ddarparwr gwasanaethau optegol er mwyn deall a oes unrhyw sefydliadau sy'n darparu'r swyddogaethau cyfyngedig penodedig a restrwyd ym mharagraff 23 a ddylai gael eu hesemptio rhag eu rheoleiddio gan y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) am fod y risgiau sy'n codi yn rhai ar lefel isel neu'n cael eu rheoli'n ddigonol eisoes. Rydym yn cydnabod bod y rheini sydd wedi cofrestru gyda ni yn ymgymryd â rolau clinigol uwch ac felly mae'n bwysig bod yr amgylchedd lle maent yn ymgymryd â'r rolau hynny yn cael ei reoleiddio'n gymesur hefyd.
51. Yn y papur hwn, rydym hefyd yn ystyried gwahanol fathau o strwythur busnes a'r heriau sy'n codi wrth reoleiddio busnesau anghorfforedig fel unig fasnachwyr a phartneriaethau. Rydym yn amlinellu ein dewis ddull o gofrestru gwahanol fathau o 'ddarparwr gwasanaethau' sydd wedi ei seilio ar elfennau o fodel rheoleiddio CQC.

Esemtio rhag rheoleiddio gan y Cyngor Optegol Cyffredinol

Esemtio darparwyr unigol drwy ystyried pob achos ar ei ben ei hun

52. Credwn y byddai o gymorth os oedd pŵer disgresiynol gan y GOC i esemtio darparwyr unigol rhag y cwmpas rheoleiddio drwy ystyried pob achos ar ei ben ei hun. Byddai darpariaeth o'r fath yn cynnig hyblygrwydd, gan ein galluogi i wneud y ddeddfwriaeth yn addas i'r dyfodol a chymryd amgylchiadau penodol i ystyriaeth. Byddai gweithredu mewn ffordd sydd wedi ei thargedu ac yn seiliedig ar risgiau yn gyson ag egwyddorion rheoleiddio da.
53. Yn yr un modd ag amgylcheddau eraill sy'n cael eu rheoleiddio, cyfrifoldeb i'r darparwyr fyddai canfod yr angen i gofrestru gyda'r GOC. Oni bai ei fod eisoes wedi ei esemtio drwy ddeddfwriaeth, byddai angen i'r darparwr gwasanaethau wneud cais i'r GOC yn gofyn am ei esemtio a byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud gan y Cofrestrydd. Gellid apelio yn erbyn unrhyw benderfyniadau a wnaed mewn perthynas â hyn.
54. Byddai darpariaethau manwl yn cael eu pennu mewn Rheolau Cofrestru diwygiedig. Byddai'r GOC yn ymgynghori ar y rhain ar ôl diweddarau deddfwriaeth.

Esemtio categorïau penodol o ddarparwyr mewn deddfwriaeth

55. Rydym yn trafod isod a ddylid esemptio categorïau penodol o ddarparwr gwasanaethau rhag rheoleiddio gan y GOC o dan ddeddfwriaeth. Rydym wedi ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliadau hyn a'r gweithgareddau a gyflawnir ganddynt, a ble mae bylchau posibl mewn rheoliadau. Mae hyn wedi ein helpu i ystyried a oes unrhyw ffactorau eraill, fel lefel y risg yn y gwasanaethau a ddarperir, neu'r graddau y mae'r grwpiau o gleifion yn agored i niwed.
56. Daeth pum categori o ddarparwr i'r golwg yn ein hymchwil ac yn ein hymgysylltu â rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn:
- Elusennau
 - Clinigau llygaid mewn prifysgolion
 - Cwmnïau gofal llygaid sylfaenol
 - Practisiau meddygon teulu ac ysbytai
 - Gweithwyr locwm
57. Yn y pedwar categori cyntaf, mae'r prif ffactorau o blaid ac yn erbyn cynnwys y darparwyr hyn yng nghwmpas rheoleiddio'r GOC yn debyg i'w gilydd. Wrth ddadlau o blaid ymestyn rheoleiddio i gynnwys yr holl fusnesau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig, rydym wedi rhoi pwys ar yr amgylchedd clinigol lle darperir gofal. Mewn rhai achosion, mae'r cleifion a wasanaethir gan y darparwyr hyn yn fwy agored i niwed nag yn y rhan fwyaf o fusnesau. Mae'r risgiau a nodwyd gan Europe Economics⁵ yn berthnasol i'r holl amgylcheddau clinigol, pa un a ydynt yn gweithredu ar sail fasnachol neu beidio. Er enghraifft, yr un fyddai'r angen i'r darparwr sicrhau llywodraethu clinigol da a buddsoddi mewn cyfarpar a hyfforddiant i gynnal y gwasanaeth. Er nad oes cymhelliant clir i wneud elw gan y darparwyr hyn, byddant yn dal i geisio cael incwm o'u gweithgareddau a gallent wynebu pwysau ariannol i dorri costau a allai greu risgiau i ddiogelwch cleifion. Er y gallai'r sefydliadau hyn gael eu rheoleiddio ar wahân, nid yw'r corff sy'n rheoleiddio eu sector yn debygol o ganolbwyntio ar yr un risgiau â'r GOC, yn enwedig yn y gwasanaethau clinigol a ddarperir ganddynt, fel bod bwlch o ran rheoleiddio. Mae darparwyr o'r fath wedi hen arfer â dod o fewn cwmpas nifer o wahanol systemau rheoleiddio.
58. Ar y llaw arall, gellir dadlau y byddai'r gost o reoleiddio yn gallu peri i ddarparwyr roi'r gorau i wasanaethu cleifion sy'n agored i niwed neu fod yn rhwystr i ddarparwyr newydd. Yn ogystal â hyn, am nad oes cymhelliant clir i wneud elw, fe ddylai hynny fod yn rhwystr i'r mathau o ymddygiad a geir mewn

⁵ [Europe Economics \(2023\), Mapping of Optical Businesses: Report for the GOC](#)

rhai busnesau masnachol. Hefyd, er ei bod yn bosibl na fydd y cyrff sy'n rheoleiddio'r gwahanol sectorau yn canolbwyntio ar yr un risgiau â'r GOC, fe ddylai presenoldeb corff rheoleiddio arall gael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant cyffredinol y sefydliad.

59. Mae'r ffioedd cofrestru a godir ar fusnesau yn fater sydd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag, er mwyn lliniaru'r risgiau o ran tynnu gwasanaethau yn ôl sydd wedi eu disgrifio uchod, byddai'r GOC yn gallu codi ffi is ar ddarparwyr o'r fath gan ddilyn ein trefniadau presennol ar gyfer codi ffioedd cofrestru ar fusnesau penodol sydd ag incwm is.

Elusennau

60. Rydym yn gwybod am bedair elusen sy'n ymwneud â darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig sydd wedi cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: 1) Ymddiriedolaeth Optegwyr Carchardai, 2) SeeAbility (prif enw Ysgol Frenhinol Pobl Ddall), 3) Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB), a 4) Gofal Llygaid i Bobl Ddigartref. Nid ydym yn gwybod am unrhyw elusennau perthnasol sydd wedi cofrestru gyda Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban na Chomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.
61. Mae dwy o'r elusennau hyn (Ymddiriedolaeth Optegwyr Carchardai a SeeAbility) wedi sefydlu canghennau masnachol i gadw'r swyddogaethau cyfyngedig ar wahân, y ddwy ohonynt wedi cofrestru gyda'r GOC yn gyrrff corfforedig – felly nid yw'r elusennau eu hunain yn cyflawni swyddogaethau cyfyngedig ac ni fyddai gofyn iddynt gael eu rheoleiddio gennym ni.
62. Mae'r drydedd elusen, RNIB, wedi gwneud contract Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol gyda'r GIG ar gyfer profion golwg yn ogystal â darparu gwasanaethau golwg gwan yn ei Ganolfan Golwg Gwan. Mae'n elusen gofrestredig ac yn gwmni cyfyngedig ac mae wedi cofrestru gyda'r GOC fel corff corfforedig.

Enghraifft o elusen: Gofal Llygaid i Bobl Ddigartref

Mae Gofal Llygaid i Bobl Ddigartref yn elusen a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau gofal llygaid i bobl ddigartref a phobl eraill sy'n agored i niwed mewn amgylchedd hygyrch a chyfeillgar lle byddant yn teimlo'n ddiogel, yn gartrefol ac yn gyfforddus.⁶

- Mae'n darparu gwasanaeth hollgynhwysol o ansawdd da yn rhad ac am ddim hyd yn oed i'r mwyafrif o bobl ddigartref nad ydynt yn derbyn budd-daliadau.
- Ei nod yw cadw, diogelu a hyrwyddo iechyd ociwlar pobl ddigartref a phobl agored i niwed yn y DU sy'n amharod neu heb y gallu i gael at wasanaethau

⁶ [WHAT WE DO | Vision Care \(visioncarecharity.org\)](https://www.visioncarecharity.org/)

prif ffrwd sydd ar gael drwy'r GIG. Mae hyn yn cynnwys sgrinio iechyd ociwlar a darparu sbectols sy'n cwrdd ag anghenion golwg y buddiolwyr ar y pryd.

- Sefydliad cenedlaethol: wyth clinig ledled Lloegr – profion golwg a chyflenwi sbectols (pob un wedi cofrestru ar wahân gyda'r awdurdod iechyd lleol fel eu bod yn gallu hawlio cyllid oddi wrth y GIG).
- [Incwm](#) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31/3/23: £152,326.
- Mae'n cael ei redeg yn bennaf gan bobl sy'n rhoi o'u hamser am ddim (tua 160 o wirfoddolwyr yn gwasanaethu tua 1,800 o bobl y flwyddyn).
- Mae'n gweithio mewn partneriaeth â Crisis UK bob blwyddyn i redeg Gwasanaeth Optegwyr Crisis at Christmas ledled Llundain:
 - yn darparu profion golwg a sbectols i bobl sy'n profi effaith digartrefedd;
 - a phob clinig yn cael ei arwain gan optometryddion, gyda chymorth gan optegwyr cyflenwi a chynorthwywyr optegol.
- Rhif elusen: [1118076](#)
- Rhif Tŷ'r Cwmnïau: [05309978](#)

63. Mae'r bedwaredd elusen, Gofal Llygaid i Bobl Ddigartref, yn un sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig. Mae'n gwmni cyfyngedig ond nid yw wedi cofrestru gyda'r GOC am nad yw'n gallu cwrdd â'r gofyniad bod y mwyafrif o'i gyfarwyddwyr wedi cofrestru. Mae pob un o'i bractisiau optegol wedi cofrestru gyda'r GIG ar gyfer Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol. O dan fodel newydd o reoleiddio busnesau, byddai'n ofynnol iddo gael ei reoleiddio gennym ni ar y sail ei fod yn darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig, oni bai ein bod yn penderfynu y dylid ei esemptio rhag rheoleiddio. Bydd unigolion sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig yn cael eu cofrestru gyda'r GOC neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.
64. Rydym wedi cwrdd â Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr⁷ ac wedi cael ar ddeall na fyddent yn rheoleiddio'r gwasanaethau clinigol a ddarperir gan elusen, gan fod eu gwaith rheoleiddio yn ymwneud yn fwy â llywodraethu a materion gweithredol yn hytrach na darparu gwasanaethau. Roeddent wedi nodi na fyddent yn gwrthwynebu i ni reoleiddio elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig ac y byddai rheoleiddio deul yn well na bod bylchau o ran rheoleiddio.
65. Y dadleuon o blaid ac yn erbyn rheoleiddio elusennau yw'r rheini yn fras sydd wedi eu nodi ym mharagraffau 57 a 58. Yn benodol, bydd yn debygol bod elusennau'n gweld grwpiau o gleifion agored i niwed (e.e. pobl ddigartref yn achos Gofal Llygaid i Bobl Ddigartref sydd hefyd yn debygol o fod ag

⁷ Rydym yn nodi mai elusennau yng Nghymru a Lloegr yn unig a gaiff eu rheoleiddio gan y Comisiwn Elusennau. Mae elusennau yn yr Alban yn cael eu rheoleiddio gan Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban a'r rheini yng Ngogledd Iwerddon gan Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon. Gan nad ydym yn gwybod am unrhyw elusennau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn unig, nid ydym wedi cysylltu â'r sefydliadau hynny.

anawsterau iechyd eraill) ac felly fod prosesau ar waith ganddynt i sicrhau llywodraethu clinigol priodol, hyfforddiant a'r amgylchedd cefnogol sy'n hollbwysig.

66. Yn ogystal â hyn, byddai cynnwys elusennau o fewn y cwmpas rheoleiddio yn hyrwyddo dull cyson o weithredu – mae dwy o'r elusennau wedi mabwysiadu strwythur (er iddynt wneud hynny drwy gwmnïau allanol) fel eu bod y tu allan i'r cwmpas rheoleiddio tra bo'r llall o fewn y cwmpas rheoleiddio.
67. Gellid dadlau, gan mai dim ond pedair elusen a nodwyd sydd yn y categori hwn ar hyn o bryd, mai anghymesur fyddai creu setiau o drefniadau rheoleiddio ar gyfer nifer mor fach. Fodd bynnag, at ei gilydd, credwn fod sail resymegol gadarn o ran diogelu'r cyhoedd dros gynnwys elusennau yng nghwmpas rheoleiddio'r GOC.

Clinigau llygaid mewn prifysgolion

68. Rydym yn deall bod y rhan fwyaf o'r prifysgolion lle darperir cyrsiau optometreg yn rhedeg eu clinigau llygaid eu hunain sy'n agored i'r cyhoedd ac yn darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig. Mae eu gwasanaethau'n cynnwys profion golwg, cyflenwi a ffitio lensys cyffwrdd yn ogystal â chlinigau arbenigol ar gyfer llygaid sych, golwg gwan, golwg deulygadog, gwasanaethau pediatrig, anawsterau dysgu, rheoli myopia, gofal llygaid ar gyfer chwaraeon a gweld lliwiau. Mae hyn yn awgrymu bod clinigau llygaid mewn prifysgolion yn delio ag amrywiaeth o gleifion a'r cyhoedd, rhai ohonynt mewn amgylchiadau sy'n eu gwneud yn agored i niwed.
69. Mae'r rhan fwyaf o'r clinigau yn darparu profion golwg am ddim pan fydd myfyrwyr yn cyflawni'r rhain (o dan oruchwyliaeth), ac mae'r rhan fwyaf ohonynt hefyd yn sôn am godi tâl am brofion golwg preifat, yn cynnwys y rheini gan optometrydd cymwysedig y tu allan i dymhorau prifysgol. Mae rhai o'r prifysgolion hefyd yn sôn am hurio offer a chyfleusterau, a dywedwyd wrthym fod hyn yn eu helpu i dalu eu ffordd a/neu wneud gwarged.

Enghraifft o glinig llygaid mewn prifysgol: Prifysgol Plymouth

Enw clinig llygaid y brifysgol yw'r [Ganolfan Ragoriaeth Gofal Llygaid](#). Mae'n darparu:

- cyfleuster addysgu ar gyfer optometryddion gradd ac ôl-radd;
- canolfan ranbarthol ar y cyd ar gyfer rhwydweithio a hyrwyddo addysg;
- archwiliadau llygaid a gyflawnir gan fyfyrwyr y drydedd flwyddyn o dan oruchwyliaeth staff optometreg – apwyntiadau di-dâl gyda disgownt o 20% ar sbectols a 10% ar lensys cyffwrdd;
- archwiliadau llygaid preifat (£25-35) gydag aelod staff cymwysedig (archwiliadau'r GIG ar gael hefyd);
- clinigau cyflenwi sbectols a lensys cyffwrdd;

- clinigau arbenigol yn cynnwys rhai ar gyfer golwg gwan, rheoli myopia, gwasanaethau pediatrig, amhariadau ar y golwg, colorimetreg, golwg deulygadog, llygaid sych a gofal llygaid niwrolegol (o leiaf hanner y rhain yn cael eu rhedeg gan fyfyrwyr o dan oruchwyliaeth).

Enghraifft o glinig llygaid mewn prifysgol: Prifysgol Bradford

Mae'r [Clinig Llygaid](#) yn cynnig:

- gwasanaeth gofal llygaid sylfaenol cyflawn i'r cyhoedd ac i fyfyrwyr a staff y brifysgol a'u teuluoedd;
- archwiliadau llygaid a gyflawnir gan fyfyrwyr optometreg y flwyddyn olaf o dan oruchwyliaeth uniongyrchol staff optometreg cymwysedig – yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr, staff a chleifion y GIG, £22 i eraill;
- ymgynghori ar lensys cyffwrdd ac apwyntiadau ôl-ofal yn rhad ac am ddim (heblaw ar gyfer lensys i reoli myopia);
- nifer o wahanol wasanaethau clinigol ychwanegol fel cyflenwi sbectols, lensys cyffwrdd, asesu clinigol uwch (yn rhan o gynllun mireinio atgyfeiriadau'r GIG), golwg deulygadog (ffi o £20), golwg a darllen (ffi o £20+), gwasanaethau pediatrig, golwg gwan (am ddim), rheoli electroddiagnostig gweledol a myopia;
- clinig addysgu myfyrwyr gyda disgownt o 25% ar sbectols.

70. Nid yw strwythurau busnes y clinigau llygaid yn glir o edrych ar eu gwefannau, felly rydym wedi ymgysylltu â Chyngor yr Ysgolion Optometreg er mwyn cael gwybod rhagor amdanynt. Rydym yn deall bod rhai o'r clinigau llygaid wedi eu sefydlu fel endid ar wahân i'r brifysgol.
71. Dylid nodi bod unrhyw brifysgolion sydd yng Nghymru a Lloegr yn cael eu galw'n 'elusennau esempt' ac, er eu bod yn elusennau yn ôl y gyfraith, nid ydynt yn gorfod cofrestru gyda Chomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr, yn rhannol am eu bod yn cael eu rheoleiddio gan gyrff eraill fel y Swyddfa Fyfyrwyr⁸. Nid yw'n glir a yw'r holl brifysgolion sy'n darparu cymwysterau a gymeradwywyd gan y GOC yn rhai nid-er-elw ond mae hyn yn debygol.⁹ Fe all elusennau esempt wneud gwarged, ond mae'r gwargedau hyn yn cael eu rhoi yn ôl i'r sefydliad i'w defnyddio er lles y cyhoedd wrth geisio cyflawni eu hamcanion elusennol.
72. Rydym wedi cwrdd â'r Swyddfa Fyfyrwyr ac rydym yn deall mai addysg myfyrwyr yw'r maes y maent yn canolbwyntio arno ac nid darparu gwasanaethau, er y gallai hyn ddod i'w sylw yn sgil pryderon am addysg. Mae'r gweithgareddau sicrhau ansawdd y mae'r GOC yn eu cyflawni gyda darparwyr cymwysterau yn cynnwys adolygiad o gyfarpar a chyfleusterau. Er bod ein safonau addysg yn cyfeirio at ddiogelwch cleifion, ansawdd yr addysg i fyfyrwyr

⁸ [Charities Act 2011 - ARU](#)

⁹ [Are Universities Non-Profit Organisations? - Think Student](#)

yw'r hyn rydym yn canolbwyntio arno. Felly, credwn fod bwlch o ran rheoleiddio.

73. Yn ogystal â hyn, yn yr un modd ag elusennau, byddai gwahaniaethau o ran trefniadaeth yn golygu bod ystyriaethau'n codi ynghylch cysondeb a thryloywder y rheoleiddio, a gallai prifysgolion eu strwythuro eu hunain mewn ffordd sy'n osgoi'r angen i gael eu rheoleiddio gan y GOC. Lle maent wedi eu sefydlu fel endidau busnes ar eu pen eu hunain (ar wahân i'r brifysgol fel corff), byddai'n ymddangos yn annheg â busnesau eraill i beidio â'u rheoleiddio.
74. At ei gilydd, credwn fod sail resymegol gadarn o ran diogelu'r cyhoedd dros gynnwys clinigau llygaid mewn prifysgolion yng nghwmpas rheoleiddio'r GOC.

Cwmnïau gofal llygaid sylfaenol

75. Mae cwmnïau gofal llygaid sylfaenol yn fath o sefydliad prif ddarparwr – endidau sy'n arwain ar gyflenwi amrywiaeth o wasanaethau o dan gontract penodol. Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn, maent yn gyfryngau contractio nid-er-elw sy'n galluogi practisiau optegol i ddarparu gwasanaethau gofal llygaid a ariennir gan y GIG sydd wedi eu comisiynu'n lleol. Fel arfer, mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau i drin mân gyflyrau llygaid a rhai brys, gwasanaethau cyn ac ar ôl triniaethau cataract a gwasanaethau anabled/awtistiaeth. Lle mae angen hefyd am swyddogaethau cyfyngedig fel profion golwg, rydym yn deall bod y rhain yn cael eu cyflawni o dan drefniadau contractiol ar wahân sydd heb fod yn nwylo'r cwmni gofal llygaid sylfaenol. Felly, er y byddai'r practis yn gallu gweld yr un claf ar yr un diwrnod ar gyfer y gwasanaethau gofal llygaid uwch a'r prawf golwg, byddai'r cyfnodau gofal hyn yn dod o dan gontractau gwahanol ac yn cael eu trin fel trafodiadau ar wahân.
76. Gan fod ein model rheoleiddio arfaethedig ynghlwm wrth y swyddogaethau cyfyngedig penodedig, ni fyddai angen i gwmnïau gofal llygaid sylfaenol gofrestru gyda'r GOC gan nad ydynt yn dal contract ar gyfer swyddogaethau cyfyngedig. Fe allai hyn newid os bydd y model yn datblygu fel bod cwmnïau gofal llygaid sylfaenol yn darparu swyddogaethau cyfyngedig fel endidau drwy eu hawl eu hunain. Ffordd arall o edrych ar hyn yw bod cwmnïau gofal llygaid sylfaenol yn atebol yn y pen draw am driniaeth y claf ac y byddant yn cadw cerdyn cofnodion y claf yn eu cronfeydd data, ac felly y dylent gael eu rheoleiddio.
77. Rydym am osgoi dyblygu rheoleiddio. Mae'r unigolion sy'n darparu'r gwasanaethau hyn wedi cofrestru gyda'r GOC neu'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae o leiaf un cwmni'n cael ei rheoleiddio gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC). Fodd bynnag, er ei bod yn debygol bod y gwasanaethau uwch a ddarperir gan y cwmnïau gofal llygaid sylfaenol yn cael eu rheoleiddio gan y CQC (neu gorff cyfatebol yn y gwledydd datganoledig) ar lefel yr endid, mae'n

annhebygol y byddai'r CQC yn edrych ar y ddarpariaeth o swyddogaethau cyfyngedig.

Practisiau meddygon teulu ac ysbytai

78. Mae'r swyddogaethau cyfyngedig penodedig a restrwyd ym mharagraff 23 yn rhai a all gael eu cyflawni gan ymarferydd meddygol cofrestredig yn ogystal â'r rheini sydd wedi cofrestru gyda'r GOC¹⁰. Yn ein hymgynghoriad ar reoleiddio busnesau yn 2013, nodwyd na fyddem yn ceisio rheoleiddio practisiau meddygon teulu nac ysbytai (rhai'r GIG a rhai annibynnol) fel sefydliadau. Mae'r rhain wedi cofrestru eisoes gyda'r CQC (neu gorff cyfatebol yn y gwledydd datganoledig¹¹) ac yn cael eu rheoleiddio gan y corff hwn sy'n monitro, yn asesu ac yn arolygu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, mae'r unigolion sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Ni fyddem am ddyblygu rheoleiddio oni bai fod angen am hynny.
79. Fodd bynnag, rydym yn deall bod rhai ysbytai, clinigau a phractisiau meddygon teulu wedi sefydlu unedau profion golwg a/neu gyflenwi masnachol ochr yn ochr â nhw sy'n darparu triniaeth feddygol. Rydym yn ystyried a ddylai'r rhain gofrestru gyda'r GOC neu gael eu hesemptio rhag cofrestru a byddwn yn cynnal trafodaethau pellach gyda'r rheoleiddwyr perthnasol.
80. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, ein safbwynt o hyd (fel yr oedd pan ymgynghorwyd ar hyn yn 2013) yw na fyddwn yn ceisio rheoleiddio practisiau meddygon teulu nac ysbytai/clinigau sy'n darparu triniaeth feddygol. Mae hyn wedi ei seilio ar y ffaith bod y gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio eisoes gan reoleiddiwr arall a bod y Ddeddf wedi ei drafftio: a) fel nad yw gofynion o ran profion golwg yn gymwys lle maent yn cael eu cyflawni gan feddyg mewn ysbyty neu glinig wrth ddiagnosio neu drin anaf neu glefyd y llygad, yn rhan o archwiliad meddygol cyffredinol, neu lle'r oedd y claf yn preswyllo mewn ysbyty neu glinig (er mwyn ei drin) pan gafodd brawf golwg; a b) fel nad yw cyfyngiadau ar werthu a chyflenwi yn gymwys i unrhyw awdurdod neu berson sy'n rhedeg ysbyty, clinig, cartref nyrsio neu sefydliad arall sy'n darparu triniaeth feddygol neu lawfeddygol. Ein bwriad yw y bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ein galluogi i gael pwerau i esemptio darparwyr gwasanaethau penodol lle bo'n briodol.

¹⁰ O dan Reoliadau Profion Golwg (Archwilio a Rhagnodi) (Rhif 2) 1989, nid yw'r gofynion yn adran 26(2) o'r Ddeddf yn gymwys lle mae'r prawf golwg yn cael ei gyflawni gan feddyg mewn ysbyty neu glinig wrth ddiagnosio neu drin anaf neu afiechyd y llygad, yn rhan o archwiliad meddygol cyffredinol, neu lle'r oedd y claf yn preswyllo mewn ysbyty neu glinig (er mwyn ei drin) pan gafodd brawf golwg. Mae adran 27(5)(c) o'r Ddeddf yn darparu na fydd y cyfyngiadau ar werthu a chyflenwi a restrwyd yn adran 27(1) yn gymwys i unrhyw awdurdod neu berson sy'n rhedeg ysbyty, clinig, cartref nyrsio neu sefydliad arall sy'n darparu triniaeth feddygol neu lawfeddygol.

¹¹ Yng Nghymru: yr Arolygiaeth Gofal Iechyd; yn yr Alban: yr Arolygiaeth Gofal a Healthcare Improvement Scotland; ac yng Ngogledd Iwerddon, yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwellu Ansawdd.

Gweithwyr locwm

81. Yn achos rhai cofrestredig sy'n gweithio fel gweithwyr locwm, rydym wedi ystyried a ddylai fod yn ofynnol iddynt gofrestru fel busnes gyda'r GOC, yn enwedig os ydynt yn masnachu fel cwmni cyfyngedig. Yn ein barn ni, am fod ymarferwyr locwm wedi cael eu contractio i ddarparu gwasanaethau drwy fusnesau eraill, ni fyddai angen eu cofrestru fel busnes drwy eu hawl eu hunain, gan y byddai'r busnes sy'n darparu'r gwasanaeth yn un sydd eisoes wedi cofrestru gyda'r GOC. Byddai'r ymarferydd locwm wedi cael ei gofrestru gyda'r GOC fel unigolyn ac felly gellir delio ag unrhyw bryderon am ei addasrwydd i ymarfer drwy'r llwybr hwn. Byddai'n peri dryswch i'r cyhoedd os oedd y gofal yn cael ei ddarparu gan ddau fusnes cofrestredig gwahanol.

Strwythurau busnes ac opsiynau ar gyfer cofrestru

82. Rydym wedi cynnal ymchwil gyffredinol i strwythurau busnes ac wedi nodi nifer o ffurfiau cyfreithiol corfforedig ac anghorfforedig. Mae crynodeb o'r rhain yn yr ychwanegiad, sydd hefyd yn edrych ar fodelau busnes presennol yn y sector optegol. Ar hyn o bryd, dim ond busnesau corfforedig sy'n cael eu rheoleiddio gennym, ond rydym yn dymuno rheoleiddio'r holl sefydliadau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig, oni bai eu bod yn esempt, beth bynnag yw strwythur y busnes neu'r berchnogaeth.
83. Mae angen ystyried beth yw'r ffordd orau i reoleiddio mathau o fusnesau sydd heb eu corffori, fel unig fasnachwyr a phartneriaethau. O safbwynt cyfreithiol, mae'r strwythurau hyn yn fwy cymhleth i ddibenion rheoleiddio na busnesau corfforedig. Er enghraifft, yn achos yr unig fasnachwr, nid yw'r busnes yn bodoli fel endid cyfreithiol ar wahân i berchennog y busnes. Yn yr un modd, mewn cyfraith nid yw partneriaeth yn bodoli ar wahân i unrhyw un o'r partneriaid. O dan y gyfraith, mae holl asedau'r busnes yn eiddo i o leiaf un o'r partneriaid fel unigolyn.
84. Ar ôl ystyried trefniadau mewn sectorau eraill sy'n rheoleiddio gwasanaethau proffesiynol, rydym wedi ein bodloni y bydd y GOC yn gallu rheoleiddio busnesau anghorfforedig drwy eu cofrestru. Mae nifer o fodelau ar waith mewn meysydd eraill, yn cynnwys:
- cofrestru gweithgaredd a reoleiddir – model y CQC;
 - cofrestru mangre ffisegol – model y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC);
 - cofrestru person cymeradwy – model yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA);
 - cofrestru darparwr yn berson cofrestredig – model Ofsted.

85. Ein barn dros dro yw mai agweddau ar fodel y CQC sy'n fwyaf addas i'r sector optegol gan mai hwn sy'n cydweddu agosaf ag egwyddorion cynllunio'r Ddeddf Optegwyr, yn enwedig drwy gysylltu rheoleiddio â'r swyddogaethau cyfyngedig penodedig. O dan y model hwn, byddai angen i'r holl ddarparwyr gwasanaethau sy'n cyflawni'r swyddogaethau cyfyngedig penodedig gael eu cofrestru gyda'r GOC, fel a ganlyn:
- Unig fasnachwyr – byddai unigolion yn cofrestru yn eu henw eu hunain fel endid cyfreithiol a byddent yn uniongyrchol gyfrifol am gynnal y gweithgareddau a reoleiddir.
 - Partneriaethau – lle mae gweithgaredd yn cael ei gynnal gan bartneriaeth, byddai angen cofrestru'r bartneriaeth fel y darparwr gwasanaethau. Ni fyddai'r GOC yn cofrestru pob partner yn unigol ond yn gosod amod ar gofrestrriad y bartneriaeth sy'n nodi enwau pob partner. Os bydd unrhyw newid yn aelodaeth y bartneriaeth gofrestredig, byddai angen i'r darparwr wneud cais am amrywio'r amod hwnnw.
 - Sefydliadau – byddai hyn yn cynnwys cwmnïau, elusennau, clinigau llygaid mewn prifysgolion a mathau eraill o ddarparwr. Y sefydliad ei hun a fyddai'n cofrestru, nid y bobl sy'n ei reoli. Wrth gofrestru, byddai'n rhaid nodi pob lleoliad, a byddai'r wybodaeth hon ar glawr yn y gofrestr gyhoeddus, ond ni fyddai'r GOC yn rheoleiddio mangreoedd unigol.
86. Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau yn ein dull o drafod cydfentrau a masnachfreintiau. Fel arfer, bydd y rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân i'r rhiant-gwmni a rhaid iddynt gofrestru yn eu henw eu hunain, er y bydd y GOC yn cydgysylltu â'r rhiant-gwmni yn ôl yr angen.

Ychwanegiad i atodiad 2: Strwythurau busnes a modelau busnes

Ein dealltwriaeth o strwythurau busnes

Isod mae'r prif fathau o strwythur busnes. Un o'r prif nodweddion sy'n eu gwahaniaethu yw a yw'r strwythur yn anghorfforedig neu'n gorfforedig:

- **Ffuriau cyfreithiol anghorfforedig** – nod amgen y ffuriau anghorfforedig yw nad oes ganddynt bersonoliaeth gyfreithiol ar wahân.
- **Ffuriau cyfreithiol corfforedig** – mae cwmnïau wedi eu 'corffori' i ffurfio endid sydd â phersonoliaeth gyfreithiol ar wahân. Mae hyn yn golygu bod y sefydliad yn gallu masnachu a gwneud contractau yn ei enw ei hun. Fodd bynnag, mae'n cael ei reoleiddio i fwy o raddau na'r ffuriau anghorfforedig.

Y prif fathau o strwythur busnes

- **Unig fasnachwr:** Ffurf gyfreithiol anghorfforedig yw hon. Yr unig fasnachwr yw unig berchennog y busnes, a gall fod yn berchen ar y busnes a'i redeg fel unigolyn, h.y. bydd yn cadw'r holl elw ac yn derbyn yr holl risg. Mae llai o reoliadau i gydymffurfio â nhw. Nid oes deddfwriaeth yn y DU sy'n canolbwyntio ar reoleiddio unig fasnachwyr. Er hynny, mae unig fasnachwyr yn cael eu llywodraethu gan nifer o wahanol gyfreithiau ar fasnach, contractau a busnes.
- **Partneriaeth:** Ffurf gyfreithiol anghorfforedig yw hon. Mae partneriaeth yn bodoli lle mae dau neu ragor o bobl yn sefydlu ac yn rhedeg busnes gyda'i gilydd ac yn rhannu'r elw a'r risg. Mae pob partner yn atebol am esgeuluster a chamymddwyn gan ei gyd-bartneriaid.
- **Partneriaeth Albanaid:** Mae cymhwyster cyfreithiol i hon, ar wahân i gymhwyster y partneriaid. Rhaid cael o leiaf ddau bartner yn y bartneriaeth. Gelwir y ffyrm yn 'benadur' a'r partneriaid yn 'asiantau'. Gall fod yn berchen ar eiddo a bod â'i hawliau a'i dyletswyddau ei hun. Fel arfer, bydd y bartneriaeth wedi ei ffurfio drwy gontract ysgrifenedig rhwng y partneriaid.
- **Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (LLP):** Mae LLP yn gorff corfforedig sydd â phersonoliaeth gyfreithiol ar wahân i'r un sydd gan ei aelodau (h.y. mae'n ffurf gyfreithiol gorfforedig). Mae gan aelodau'r LLP atebolrwydd cyfyngedig am y swm o arian y maent wedi ei fuddsoddi yn y busnes. Mewn LLP nid oes cyfrannau na chyfranddalwyr na chyfarwyddwyr (yn wahanol i gwmni cyfyngedig). Mae aelodau dynodedig yn yr LLP sy'n cael eu trin fel cyfarwyddwyr i ddibenion cofrestru'r corff corfforedig gyda'r GOC (yn ogystal ag aelodau cyffredin). Mae strwythur busnes o'r math hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml gan gyfreithwyr a chyfrifyddion.

- **Cwmni cyfyngedig:** Mae cwmni cyfyngedig yn ffurf gorfforedig sy'n endid ar wahân ac sydd â phersonoliaeth gyfreithiol ar wahân, h.y. mae ar wahân yn gyfreithiol i'r bobl sy'n ei redeg (h.y. mae'n ffurf gyfreithiol gorfforedig). Mae cwmni o'r math hwn yn gallu masnachu a gwneud contractau yn ei enw ei hun. Mewn cwmni cyfyngedig, byddai un person yn gallu bod yn berchen ar y cwmni a'i reoli a'i gofrestru ar ei ben ei hun, gan weithredu fel cyfarwyddwr a chyfranddaliwr.

Strwythurau busnes posibl eraill

- **Elusennau:**
 - **Ymddiriedolaeth elusennol:** Mae ymddiriedolaeth elusennol yn ffordd i grŵp o bobl ('ymddiriedolwyr') reoli asedau fel arian, buddsoddiadau, tir neu adeiladau. Nid yw ymddiriedolaeth elusennol yn gorfforedig, felly ni all wneud contractau na bod yn berchen ar eiddo drwy ei hawl ei hun. Nid yw'n endid cyfreithiol.
 - **Cwmni elusennol:** Mae cwmni elusennol yn gwmni cyfyngedig preifat a gofrestrwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer statws elusennol. Mae'r rhan fwyaf o lawer ohonynt yn gyfyngedig drwy warant yn hytrach na chyfrannau. Mae'r ymddiriedolwyr yn rhai sydd ag atebolrwydd cyfyngedig neu heb atebolrwydd dros ddyledion neu rwymedigaethau'r cwmni elusennol.
 - **Sefydliad corfforedig elusennol:** Endid cyfreithiol corfforedig yw hwn. Mae'r ymddiriedolwyr yn rhai sydd ag atebolrwydd cyfyngedig neu heb atebolrwydd dros ddyledion neu rwymedigaethau.
 - **Cymdeithas elusennol anghorfforedig:** Grŵp o wirfoddolwyr yn rhedeg elusen gyda nod cyffredin. Nid yw cymdeithasau elusennol anghorfforedig yn gallu cyflogi staff na bod yn berchen ar safleoedd.
- **Awdurdodau lleol:** Mae awdurdodau lleol yn sefydliadau a grewyd drwy statud yn endidau cyfreithiol sengl.
- **Ymddiriedolaethau:** Mae ymddiriedolaeth yn ddyfais gyfreithiol ar gyfer dal asedau sy'n gwahanu perchnogaeth gyfreithiol a buddiant llesiantol. Nid yw ymddiriedolaethau'n endidau cyfreithiol ar wahân fel cwmni corfforedig. Ni allant wneud contractau, erlyn eraill na bod yn berchen ar eiddo. Ni ellir ffurfio ymddiriedolaethau drwy gorffori.
- **Cymdeithas gydweithredol:** Ni all cymdeithas gydweithredol fod yn un elusennol am mai ei haelodau ei hun yw ei buddiolwyr, yn hytrach na'r cyhoedd. Mae cymdeithas gydweithredol yn gorfforedig a gall ei chyfarwyddwyr dderbyn tâl.

Modelau busnes yn y sector optegol

Mae nifer o wahanol fodelau busnes yn y sector optegol sydd wedi eu hamlinellu isod.

Unig fasnachwr: Gall busnesau o'r math hwn gael eu perchenogi a'u rheoli gan un sydd heb gofrestru gyda'r GOC; cael eu perchenogi gan un sydd heb gofrestru gyda'r GOC sy'n cyflogi un neu ragor sydd wedi cofrestru gyda'r GOC; neu gael eu perchenogi a'u rheoli gan un sydd wedi cofrestru gyda'r GOC. Nid yw'n bosibl i'r model busnes hwn gofrestru gyda'r GOC o dan y system bresennol.

Partneriaeth: Gall busnesau o'r math hwn hefyd gael eu perchenogi a'u rheoli gan gyfuniad o'r rheini sydd wedi cofrestru gyda'r GOC a'r rheini sydd heb gofrestru. Nid yw'n bosibl i'r model busnes hwn gofrestru gyda'r GOC o dan y system bresennol, oni bai ei bod yn bartneriaeth Albanaid.

Masnachfaint: Mae masnachfaint yn gytundeb rhwng dau barti sy'n caniatáu i un parti (yr un sydd wedi ei freinio) farchnata cynhyrchion neu wasanaethau gan ddefnyddio nod masnach a dulliau gweithredu'r parti arall (yr un sy'n breinio). Un enghraifft o fasnachfaint yw busnesau optegol mewn perchnogaeth breifat sy'n rhan o frand ehangach (e.e. masnachfaint Boots).

*"Fel arfer, mae'r unigolyn (rheolwr y practis gan amlaf) yn berchen ar y busnes cyfan a bydd yn cadw'r holl elw ac ecwiti. Bydd y busnes yn talu ffi masnachfaint i'r brand y mae'n rhan ohono o dan gytundeb masnachfaint. Bydd y busnes yn cael cymorth gan y brand (systemau a phrosesau fel adnoddau dynol, rheoli ymarfer a chadw cofnodion; yswiriant; TG; seilwaith/buddsoddi; prynu/costau a phrisiau stoc). Un agwedd ar fasnachfaint yw bod y perchnogion yn gallu canolbwyntio ar arloesi blaengar yn hytrach nag ar y gwaith gweinyddol o redeg y busnes, h.y. manteisio ar feintiolr busnes mawr heb fygu brwdfrydedd y perchnogion. Gall practisiau masnachfaint gynnig gwasanaethau GIG a/neu rai preifat."*¹²

Cyd-fentrau: Mae cyd-fenter yn drefniant busnes lle mae dau neu ragor o bartïon yn cyfuno eu hadnoddau i gyflawni tasg benodol. Gall y dasg hon fod yn brosiect newydd neu unrhyw fath arall o weithgarwch busnes. O ran y strwythur cyfreithiol, gellir ffurfio cyd-fenter drwy strwythur cyfreithiol o unrhyw fath, fel corfforaeth neu bartneriaeth.

"Maent yn debyg i fasnachfaint i'r graddau bod y busnesau'n eiddo i unigolyn ac yn cael cymorth yr un pryd gan y brand ehangach; y prif wahaniaeth yw bod y berchnogaeth yn cael ei dal yn rhannol gan yr unigolyn (cyfarwyddwr) ac yn rhannol gan y rhiant-grŵp. Y brif enghraifft yw Partneriaeth Gyd-fentro Specsavers. O dan fodel y bartneriaeth gyd-fentro, mae'r rhiant-grŵp yn arfer mwy o oruchwyliaeth dros y gwahanol bractisiau nac o dan fodel masnachfaint syml, ac mae unigolion yn derbyn llai o risg nag o dan fasnachfaint...mae'r Hakim Group hefyd wedi dod yn

¹² [ee-mapping-of-optical-businesses-final-report-22-feb-2023.pdf \(t4\)](#)

amlwg yn y sector hwn. Mae'r Hakim Group yn cynnal model cyd-fentro neilltuol lle mae'r grŵp yn cael cyfran reoli o fwy na 50 y cant yn y practisiau sy'n bartneriaid iddo ochr yn ochr â'r optometryddion neu optegwyr cyflenwi sy'n berchen ar y practis ac yn ei redeg a'i weithredu. Mae'r practisiau'n gallu cadw eu hunaniaeth brand, a manteisio ar seilwaith a thîm cymorth swyddfa gefn pwrpasol. Mae cyd-fentrau yn gallu cynnig gwasanaethau GIG a/neu rai preifat.”¹³

Siopau cadwyn: Nifer o ganghennau sy'n rhan o un gorfforaeth.

“Y prif enghreifftiau o siopau cadwyn yw Boots (sydd â changhennau yn ogystal â masnachfreintiau) a Vision Express (sydd hefyd yn rhedeg partneriaethau cyd-fentro), ac archfarchnadoedd (e.e. Asda).”¹⁴

¹³ [ee-mapping-of-optical-businesses-final-report-22-feb-2023.pdf \(p4\)](#)

¹⁴ [ee-mapping-of-optical-businesses-final-report-22-feb-2023.pdf \(p4\)](#)

Atodiad 3: Gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru

Cefndir

87. Mae adran 9 o'r Ddeddf yn darparu bod y GOC yn gallu cofrestru cyrff corfforedig sy'n cynnal busnes fel optegydd a/neu optometrydd cyflenwi ac sy'n gallu cwrdd ag un o bedwar gofyniad a bennir yn adrannau 9(2)(a)-(d). Lle nad yw corff corfforedig yn dod o fewn cwmpas adrannau 9(2)(b)-(d) (sy'n cynnwys lle nad yw'r rhan fwyaf o'i fusnes yn ymwneud â phrofion golwg a ffitio/cyflenwi teclynnau optegol), mae adran 9(2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff corfforedig gwrdd â gofynion penodol o ran cymhwysra, yn cynnwys rhai sy'n ymwneud â chofrestru ei gyfarwyddwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff corfforedig sydd wedi cofrestru gyda'r GOC ar hyn o bryd wedi cael eu cofrestru o dan y gofyniad hwn.
88. Lle mae cyrff corfforedig yn cofrestru gyda ni o dan adran 9(2)(a) o'r Ddeddf, rhaid bod mwyafrif eu cyfarwyddwyr wedi cofrestru gyda'r GOC. Lle mae corff corfforedig sydd â dim ond un cyfarwyddwr yn dymuno cofrestru gyda'r GOC, rhaid i'r cyfarwyddwr hwnnw fod yn un sydd wedi cofrestru. Yr enw ar y trefniadau hyn gyda'i gilydd yw gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru.

Dadansoddiad

89. Wrth edrych tua'r dyfodol at gyfnod lle bydd yr holl fusnesau sy'n cyflawni swyddogaethau cyfyngedig penodedig a restrwyd ym mharagraff 23, beth bynnag fo'u strwythur, yn gorfod cael eu rheoleiddio gan y GOC, mae angen ystyried a fydd y gofynion o ran mwyafrif y cyfarwyddwyr yn angenrheidiol o hyd i ddiogelu'r cyhoedd.
90. Mae'r dulliau o weithredu yn amrywio rhwng rheoleiddwyr gofal iechyd sy'n gyfrifol am reoleiddio busnesau/mangreioedd. Nid yw'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) yn cofrestru busnesau na chyrff corfforedig, ond mae'r ddeddfwriaeth ar ei gyfer yn darparu bod corff corfforedig deintyddol yn cyflawni trosedd "if it carries on the business of dentistry at a time when the majority of its directors are not persons who are either registered dentists or registered dental care professionals"¹⁵. Nid yw'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) yn gosod gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru ond mae'n dibynnu ar fesurau diogelu eraill, yn cynnwys y model arolygol, sy'n ei gwneud yn ofynnol bod mangre fferylliaeth newydd sy'n gwneud cais am

¹⁵ [Corporate dentistry \(gdc-uk.org\)](http://gdc-uk.org)

gofrestru yn bodloni'r GPhC ynghylch ei threfniadau llywodraethu, a'i systemau ar gyfer sicrhau cymhwysedd staff, yr amgylchedd gweithio ac yn y blaen.

91. Mae'r dadleuon o blaid cadw'r gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru gan y GOC yn ymwneud â phryderon ynghylch y posibilrwydd y byddai angenrheidiau masnachol yn drech na ffactorau clinigol ac felly'n creu'r perygl o danseilio safonau gofal. Yn ôl y ddatl hon, gall y risg hon fod yn fwy os nad yw unigolion sy'n arfer rheolaeth sylweddol dros y ffordd o gynnal busnes optegol yn rhai sydd o dan y dyletswyddau proffesiynol a ddylai fod yn sail i ymarfer mewn gwasanaethau gofal llygaid. Yn ogystal â hyn, byddai cael mwyafrif o gyfarwyddwyr yn rhai cofrestredig yn helpu i sicrhau bod ethos y busnes yn cael ei feithrin gan weithwyr proffesiynol sy'n rhannu set o werthoedd. Byddai gofyniad o'r fath yn diogelu annibyniaeth wrth wneud penderfyniadau clinigol ac yn sicrhau mai buddiannau cleifion sy'n dod yn gyntaf bob amser.
92. Mae nifer o ddadleuon yn erbyn cadw'r gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru gan y GOC, yn cynnwys:
- Bod y sgiliau sydd eu hangen i redeg busnes optegol modern yn cynnwys cyllid, adnoddau dynol, technoleg a marchnata, ymysg eraill. Mae darparu gofal diogel ac effeithiol am gleifion yn galw nid yn unig am sicrhau bod y cyngor clinigol a roddir yn ddibynadwy, ond hefyd am y sgiliau busnes sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth costeffeithiol mewn ffordd sy'n ystyriol o'r defnyddiwr. Mae unigolion sydd ag arbenigedd penodol, mewn archwilio a chyllid er enghraifft, yn gallu dod â rheolaethau ychwanegol i'r busnes a allai fod yn eisiau fel arall. Mae'n bwysig bod gofynion rheoleiddio yn cynnal y cymysgedd sgiliau hwn yn strwythurau penderfynu busnesau optegol. Mewn nifer o fusnesau optegol, mae gweithwyr proffesiynol sydd â sgiliau eraill o'r fath eisoes yn aelodau o fwrdd y ffyrn ac yn arfer rheolaeth sylweddol dros y ffordd o gynnal y practis, a hynny'n awgrymu bod rhai sydd wedi cofrestru a rhai sydd heb gofrestru yn gallu cydweithio heb beryglu safonau gofal am gleifion.
 - Gall fod yn anodd i fusnesau bach ddod o hyd i ddigon o unigolion neu eu talu am eu gwaith er mwyn cwrdd â'r gofynion. Hefyd, mae hyn yn gallu cymell busnesau bach i benodi un cyfarwyddwr yn unig er mwyn cydymffurfio â'r gofynion am y lleiaf o gost, a hynny heb fod er y budd pennaf iddynt.
 - Bod y gofynion yn rhwystr uniongyrchol rhag mynediad i'r sector a allai gyfyngu ar gystadleuaeth a llesteirio arloesi wrth ddarparu gwasanaethau.

- Gan fod cysylltiad yn aml rhwng rôl y cyfarwyddwr a pherchnogaeth y busnes neu fod yn berchen ar gyfranddaliadau, byddai'r gofynion yn gallu lleihau cyfleoedd i fuddsoddi o'r tu allan. Gall fod yn fwy anodd caffael practisiau llai mewn cyd-destun lle mae'r farchnad yn mynd drwy gyfnod o gyfuno.
- Mewn ymchwiliad gan Europe Economics¹⁶ dangoswyd bod barn ymysg rhanddeiliaid fod modd cydymffurfio â'r gofynion heb fod hynny'n cael gwir effaith, e.e. cael cyfarwyddwyr sydd wedi cofrestru sy'n chwarae rhan 'symbolaidd' ac sydd heb ran wirioneddol mewn rhedeg y busnes.
- Bod y gofynion yn creu rôl i'r rheini sydd wedi cofrestru nad ydynt am ei chael o reidrwydd ac y gallent fod yn anghymwys i'w chyflawni, a bod tystiolaeth anecdotaidd bod rhai'n teimlo pwysau i weithredu fel cyfarwyddwyr a heb ddeall eu holl gyfrifoldebau a rhwymedigaethau.
- Bod mesurau diogelu eraill a fyddai'n sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal heb fod angen y gofynion. Yn benodol, rydym yn cynnig y dylid cael 'Pennaeth Ymarfer Optegol' y mae'n rhaid iddo fod wedi cofrestru, wedi ei enwebu i'r GOC ac yn arfer cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal y busnes yn unol â safonau ymarfer y GOC. Mae ein safonau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau roi blaenoriaeth i ddiogelwch y claf fel y gall dderbyn y gofal gorau posibl. Os bydd y GOC yn barnu'n ddiweddarach fod angen mesurau diogelu ychwanegol i hyrwyddo diogelwch y cyhoedd, byddai'n well cyflwyno'r rhain drwy'r safonau ymarfer neu ysgogiadau eraill, yn hytrach na gosod cyfyngiad artiffisial ar strwythurau busnes drwy ddeddfu.
- Bod y GOC yn ysgwyddo costau gweinyddol, sydd wedi eu hadlewyrchu yn y ffioedd am gofrestru, wrth wirio bod busnesau'n cydymffurfio â'r gofynion. Mae hyn yn creu sefyllfaoedd hefyd lle bydd busnesau'n methu â chydymffurfio dros dro, er enghraifft pan fydd cyfarwyddwr yn cael ei orfodi i ymddiswyddo ar fyr rybudd am resymau sy'n ymwneud ag iechyd neu bethau eraill. Yn ymarfer cydymffurfiaeth y GOC yn 2024, archwiliwyd 2,809 o gwmnïau a chafwyd bod 26 ohonynt yn anghydfurfio. O'r rhain, dyroddwyd hysbysiad am eu tynnu oddi ar y gofrestr i wyth ohonynt, roedd 16 wedi gwneud newidiadau er mwyn ailddechrau cydymffurfio a chaniatawyd estyniad i ddau oherwydd amgylchiadau a oedd yn lleihau'r bai.

93. At ei gilydd, credwn nad oes cyfiawnhad bellach dros y gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru. Yn ogystal â hyn, mae nifer o fanteision o gael rhai sydd heb gofrestru yn rhan o strwythurau penderfynu ac rydym yn awyddus i hyrwyddo'r rhain drwy'r broses ddiwygio. Dylid gallu sicrhau bod

¹⁶ [Europe Economics \(2023\), Mapping of Optical Businesses: Report for the GOC](#)

safonau'n cael eu cynnal drwy fesurau diogelu dichonol eraill, yn enwedig y Pennaeth Ymarfer Optegol a'n safonau presennol yn gofyn am roi blaenoriaeth i ddiogelwch cleifion, heb y gofyniad hwn.

94. Bydd busnesau optegol sydd â'r mwyafrif o'u cyfarwyddwyr wedi cofrestru yn gallu cadw'r strwythur hwn os dymunant. Mesur llacio yw ein cynnig ni a fyddai'n caniatáu i'r holl fusnesau optegol ddewis y strwythur penderfynu sy'n gweithio orau iddyn nhw.

Atodiad 4: Pennaeth Ymarfer Optegol

Cefndir

95. Wrth geisio sicrwydd drwy reoleiddio, mae angen ystyried pa drefniadau sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â'n safonau busnes. Yn y galwad am dystiolaeth ar y Ddeddf Optegwyr, roeddem wedi gofyn i randdeiliaid a oedd model gwahanol o reoleiddio busnesau y dylem ei ystyried. Nodwyd yn ein dogfen ymateb:

“Rydym yn gweld bod gwerth o hyd i system lle mae unigolion a enwir sydd â chyfrifoldebau penodol o fewn system reoleiddio ehangach sy'n galw am atebolrwydd gan weithwyr proffesiynol a busnesau unigol. Byddai hyn yn hyrwyddo arweinyddiaeth a diwylliant effeithiol yn y cyd-destun lle mae systemau ar lefel busnesau'n cael effaith ar ddiogelwch cleifion. Mae angen pennu'r model gorau i gyflawni'r nod hwn gan adlewyrchu anghenion a nodweddion penodol ein sector. Rydym yn nodi pwyntiau am y manteision ac anfanteision mewn gwahanol elfennau ym model y GPhC a byddwn yn ystyried hwn a modelau tebyg sy'n gweithredu y tu allan i'r sector gofal iechyd”.

96. Er bod rhywfaint o ddiddordeb yn y model sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC), roedd pryder na fyddai rôl y fferylllydd cyfrifol yn elfen a fyddai'n addas ar gyfer optegwyr manwerthu o ystyried gwahaniaethau yn y proffiliau risg a'r cyd-destunau gweithredu a chostau ychwanegol. Roedd rhai o'r farn y dylai'r GOC ddarparu modelau eraill ar gyfer rheoleiddio busnesau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn addas i'r sector. Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen ymateb, rydym wedi adolygu model y GPhC yn fwy manwl ac wedi ystyried systemau rheoleiddio yn sectorau gwasanaethau proffesiynol eraill (gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau ariannol) lle mae rolau tebyg yn bodoli.

Trosolwg

97. Yn gyffredinol, rydym yn cynnig y dylid cael uwch-reolwr enwebedig mewn busnesau optegol a reoleiddir gan y GOC a fydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal y busnes yn unol â threfniadau rheoliadol y GOC. Yr enw rydym yn ei roi i'r rôl hon yw Pennaeth Ymarfer Optegol (PYO).
98. Yn fras, credwn mai'r cyfrifoldebau y dylai'r PYO eu harfer yw cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y busnes:
- yn cydymffurfio â safonau'r GOC ar gyfer busnesau cofrestredig a gofynion rheoleiddio eraill ac yn osgoi mynd yn erbyn y gofynion hynny;

- yn datgan gwybodaeth berthnasol i'r GOC, yn cynnwys lle cafwyd torri sylweddol ar ofynion y GOC a allai alw am ymchwiliad gan y GOC;
 - yn cadw'n wastad â gofynion y GOC ar gyfer cofrestru busnesau.
99. Gan fod rhai busnesau optegol yn darparu lleoliadau hyfforddi, bydd o ddiddordeb i ni glywed barn ynghylch a ddylai'r PYO fod â chyfrifoldebau mewn cysylltiad â hyn, er enghraifft o ran sicrhau bod trefniadau o'r fath yn ddigonol ar lefel systemau.
100. Mae trefniadau rheoleiddio'r GOC wedi eu bwriadu i ddiogelu'r cyhoedd rhag nifer o wahanol fathau o newid clinigol ac anghlinigol (fel camwerthu cynhyrchion a gwasanaethau). Credwn y dylai cyfrifoldebau'r PYO fod yn gymwys i holl ofynion y GOC ac nid yn unig y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch cleifion mewn ystyr clinigol.
101. Credwn y dylai'r PYO fod wedi cofrestru a bydd y wybodaeth honno'n cael ei chofnodi ar y cofrestrau cyhoeddus o unigolion a busnesau cofrestredig.
102. Bydd cyfrifoldebau'r PYO yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth sylfaenol a'u hategu drwy reolau a wneir gan y GOC. Ar hyn o bryd, nid ydym yn credu bod angen set o safonau ymarfer ar wahân ar gyfer y PYO ond rydym am gael deddfwriaeth i'n galluogi i gyflwyno safonau o'r fath yn y dyfodol, yn ôl yr angen.

Sail resymegol

103. Wrth gyflwyno'r ddadl o blaid ymestyn rheoleiddio i gynnwys yr holl fusnesau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig, rydym wedi rhoi pwys ar y ffordd y mae profiad y claf yn dibynnu nid yn unig ar yr unigolyn sy'n darparu'r gofal ond hefyd ar yr amgylchedd clinigol lle darperir y gofal, ac ar y ffordd y mae ystyriaethau masnachol yn gallu effeithio ar ansawdd gofal.
104. Mae'r canfyddiadau o ymchwiliadau gofal iechyd a syniadau modern am ymarfer da wrth reoleiddio yn rhoi pwys ar y lle sydd i lywodraethu sefydliadol wrth ddiogelu'r cyhoedd. Rhoddir mwy o sylw i'r rhan sydd gan systemau, polisïau a phrosesau, a diwylliant wrth ddylanwadu ar ymddygiad sefydliadau a phawb sy'n gweithio iddynt. Yn ogystal â hyn, mae'r GOC, fel rheoleiddwyr gofal iechyd eraill, yn dilyn strategaeth sy'n rhoi mwy o sylw i atal niwed ac yn symud tuag at reoleiddio sy'n rhagofalus.
105. Byddai'r cynnig hwn o gymorth i newid cydbwysedd y cyfrifoldebau rhwng busnesau ac unigolion, gan sicrhau na fydd unigolion cofrestredig yn cael eu dal yn gyfrifol yn annheg am faterion sy'n codi o systemau, polisïau a phrosesau sydd heb fod o dan eu rheolaeth. Mae'r rôl yn cael ei disgrifio yn nhermau'r hyn y mae'n rhesymol disgwyl i'r PYO ei wneud i sicrhau bod y busnes yn darparu gofal diogel ac effeithiol ond heb leihau cyfrifoldeb

gweithwyr gofal iechyd proffesiynol unigol i sicrhau gofal a diogelwch eu cleifion a'r cyhoedd ac i gynnal safonau proffesiynol. Elfen hanfodol yn safonau'r GOC o hyd fydd yr egwyddor bod unigolion cofrestredig yn broffesiynol atebol ac yn bersonol gyfrifol am eu hymarfer ac am yr hyn y maent yn ei wneud neu'n peidio â'i wneud, ni waeth pa gyfarwyddyd neu arweiniad y maent yn eu cael gan gyflogwr neu gydweithiwr.

106. Yn ei hanfod, mae rôl y PYO yn ymwneud ag atal camgymeriadau systemig rhagweladwy a chryfhau systemau pan fydd pethau'n mynd o chwith. Byddai'n sicrhau bod busnesau'n dyrannu cyfrifoldebau'n glir i'r unigolion allweddol hynny ac yn eu dal yn atebol. I'r un graddau, nid yw'n symud cyfrifoldeb oddi wrth yr endid busnes, ac rydym yn cydnabod bod angen diffinio atebolrwyddau'n glir rhwng y gwahanol weithredwyr yn y system fel na fydd cyfrifoldebau allweddol yn syrthio drwy'r rhwyd nac yn mynd yn rhy wasgaredig.
107. Y sail resymegol a nodwyd ar gyfer y diwygiadau diweddar mewn fferylliaeth yw y bydd rhoi'r fframwaith angenrheidiol ar waith i reoli systemau yn fodd i gynyddu potensial fferylliaeth gymunedol ac yn gwneud gwell defnydd o gymysgedd sgiliau timau fferylliaeth er mwyn darparu rhagor o wasanaethau clinigol yn y gymuned a chynnal capasiti ehangach y GIG/gofal iechyd a chymdeithasol.¹⁷ Mae'r GOC yn awyddus i alluogi gwasanaethau gofal llygaid cymunedol i ddatblygu mewn ffyrdd tebyg. Fodd bynnag, wrth ymgymryd â rolau clinigol mwy cymhleth gan y rhai a gofrestrwyd, cynyddu fydd y risgiau o niwed, ac felly bydd mwy o angen am atebolrwydd a rheolaethau priodol. Felly, byddai cryfhau llywodraethu sefydliadol drwy ddiwygio rheoliadau busnes yn gallu helpu i feithrin mwy o hyder – ar ran y cyhoedd, llywodraeth ac offthalmolegwyr ymysg eraill – yng ngallu'r rhai a gofrestrwyd i gyflawni'r rolau ehangach hyn.
108. Yr awgrym o'n trafodaethau â rheoleiddwyr a'r rheini sydd â phrofiad o rolau tebyg mewn sectorau eraill yw y gellir cael manteision eilaidd. Er enghraifft, mae busnesau mawr wedi dweud bod cael rôl uwch o'r fath yn eu helpu i sicrhau cydymffurfiaeth gyson ar lefel y canghennau lleol. Mae eraill wedi nodi bod atebolrwydd clir o'r math hwn wedi gwella effeithiolrwydd eu harweinwyr. Hefyd, bod y rôl yn gallu gwella'r cyfathrebu rhwng rheoleiddwyr a busnesau. Yn olaf, soniwyd wrthym am y ffordd y mae unigolion yn y rôl hon wedi ffurfio rhwydweithiau proffesiynol a rhannu arferion da.

¹⁷ Gorchymyn Fferylliaeth (Fferyllwyr Cyfrifol, Fferyllwyr Arolygol etc.) 2022.

Dysgu oddi wrth sectorau eraill

109. Rydym wedi ymchwilio i rolau tebyg yn lleoliadau gwasanaethau proffesiynol eraill a reoleiddir, yn cynnwys fferylliaeth, gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau ariannol.
110. Os byddwn yn bwrw ymlaen i gyflwyno cynigion, rydym yn glir bod angen i ni bennu model sy'n cwrdd ag anghenion y sector gwasanaethau optegol. Nid ydym yn credu bod modelau presennol mewn sectorau eraill y gellid eu copïo yn eu cyfanrwydd.
111. Cafwyd llawer o ddadlau am rôl y fferylllydd cyfrifol mewn fferylliaeth. Fodd bynnag, credwn y byddai rôl debycach i un y fferylllydd arolygol yn cyflawni ein hamcanion yn well ac y byddai'n addas i'r ffordd y mae busnesau optegol yn gweithio. Y prif wahaniaeth rhwng y ddwy rôl yw bod y fferylllydd cyfrifol yn rheoli mangre fferylliaeth gofrestredig benodol pan yw'n agored, tra bo cyfrifoldebau arolygu gan y fferylllydd arolygol ar gyfer y busnes fferylliaeth manwerthu cyfan drwy'r amser. Mae rôl y fferylllydd arolygol yn fwy perthnasol o gofio ein bod yn canolbwyntio ar systemau, polisïau a diwylliant y busnesau. Rydym hefyd yn cydnabod bod gwahaniaethau rhwng gwasanaethau optegol a fferylliaeth a allai beri i rôl y fferylllydd cyfrifol fod yn un broblemus. Er enghraifft, ni fydd optometrydd yn bresennol bob amser pan fydd siopau manwerthu yn agored ac mae gwahaniaethau yn y modelau dirprwyo a goruchwyllo.
112. Mae ein hadolygiad o fodelau mewn sectorau eraill wedi dangos bod rhai pwyntiau dysgu defnyddiol:
 - Er mwyn cynnal fframwaith rheoleiddio ystwyth, ei bod yn bwysig pennu diben cyffredinol y rôl mewn deddfwriaeth a bod safonau ymarfer yn cael eu gosod a'u gorfodi gan y rheoleiddwyr. Yn yr holl reoleiddio ar ofal iechyd, mae llywodraeth wedi cymryd camau pendant i symud materion allan o ddeddfwriaeth sylfaenol anhyblyg a'u cynnwys yn rheolau'r rheoleiddwyr, mewn rheoliadau ac mewn safonau. Mae'n gweld mai rôl deddfwriaeth yw gosod y fframwaith cyffredinol a bod yn ddigon hyblyg i alluogi rheoleiddwyr i ymgynghori ar y manylion a'u cynnwys wedyn mewn rheoliadau ar gyfer y proffesiynau .
 - Ei bod yn bwysig dangos yn glir y perthnasoedd rhwng gwahanol weithredwyr er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd, gan egluro'r atebolrwydd sydd gan bob rôl. Mewn gwasanaethau optegol, y prif weithredwyr fyddai'r endid busnes, y PYO ac unigolion cofrestredig. Bydd yn bwysig cytuno ar y cyfyngiadau ar gyfrifoldebau ac atebolrwyddau'r PYO. Ni ddylai'r PYO gael ei gosbi'n annheg am bopeth sy'n mynd o'i le, er enghraifft os na fydd staff yn dilyn gweithdrefnau a gytunwyd. Mae'r

cysyniad o 'gampau rhesymol' a ddefnyddir mewn gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau ariannol yn un buddiol i'w ystyried.

- Bod angen i'r unigolyn fod â hynafedd a chyfrifoldebau penderfynu digonol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae rôl yr uwch-reolwr wedi ei diffinio'n glir mewn rheoliadau fferylliaeth a rheoliadau gwasanaethau ariannol.

Ystyriaethau manwl am weithredu'r trefniadau

113. Os derbynnir y ddadl o blaid creu rôl y PYO, bydd angen penderfynu ar gyfres o ystyriaethau manwl. Bydd y diwygiadau mewn deddfwriaeth yn rhoi pwerau i'r GOC i wneud a diwygio rheolau ar yr holl weithgareddau a reoleiddir ganddo, a'n bwriad fyddai gwneud defnydd o'r pwerau hyn i bennu trefniadau mwy manwl ar gyfer rôl y PYO.
114. Mae rhai syniadau cychwynnol wedi eu cynnig isod yn sail ar gyfer ymgynghori.

Sut bydd y cyfrifoldebau ymysg gwahanol weithredwyr y system yn gweithio?

115. Y prif weithredwyr yn y system yw'r busnes cofrestredig, y PYO a'r unigolyn cofrestredig. Fel y nodwyd uchod, bydd yn bwysig diffinio gwahanol gyfrifoldebau'r tri gweithredwr hyn yn glir. Bydd prif gyfrifoldebau'r PYO yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth, fel y nodwyd ym mharagraffau 98-100.
116. Rydym wedi disgrifio senarios damcaniaethol isod sy'n rhoi enghreifftiau o'r gwahanol gyfrifoldebau. Bydd pob sefyllfa yn unigryw a bydd pob achos ar addasrwydd i ymarfer yn cael ei drafod yn ôl ei rinweddau ond, gan fod y cysyniad o PYO yn un newydd yn y sector, rydym yn gobeithio y bydd y senarios damcaniaethol yn ddefnyddiol o ran dangos i ba gyfeiriad rydym yn mynd. Yn yr un modd â phob gwaith ar addasrwydd i ymarfer, bydd corff o arferion da yn datblygu dros amser. Er ei bod yn bwysig ystyried camau gorfodi, prif bwrpas y cynigion hyn yw atal y niwed a allai arwain at ystyriaethau o ran addasrwydd i ymarfer.
117. Bydd busnesau cofrestredig yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfio â'n safonau. Yn gyffredinol, rydym yn rhag-weld y bydd y busnes cofrestredig yn atebol mewn senario lle nad yw wedi rhoi rhywbeth ar waith fel y mae'r PYO wedi cynghori (neu wedi mynd yn groes i gyngor y PYO wrth wneud hynny), ac y bydd yr unigolyn cofrestredig yn atebol lle nad oedd wedi cydymffurfio â'r polisiâu/prosesau a bennwyd gan y busnes/PYO (byddai'r cwestiwn o ba un a oedd y PYO yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisiâu/prosesau hyn yn briodol yn gallu bod yn ffactor perthnasol). Gallai'r PYO fod yn atebol lle mae'n gwneud penderfyniad sy'n mynd yn groes i'r safonau/rheoliadau, yn cymell torri safonau/rheoliadau, neu'n celu neu'n peidio ag adrodd ar doriad i'r GOC (neu gorff perthnasol arall).

Senarios enghreifftiol: cyfrifoldebau'r PYO

Senario 1

Mae'r tîm masnachol yn y busnes cofrestredig yn cyhoeddi gwybodaeth anghywir am fater clinigol nad oedd y PYO yn gwybod amdani. Pan ddaw'r PYO i wybod am y wybodaeth hon, mae'n cynghori y dylid ei dileu ac y dylid cyhoeddi cywiriad. Mae hefyd yn cynghori y dylid cysylltu ag unrhyw gleifion sydd wedi gwneud penderfyniadau ar sail y mater hwn er mwyn eu hysbysu am y wybodaeth gywir. Os bydd y busnes yn dilyn y cyngor, dylai'r PYO gynghori'r busnes i ystyried a ddylai adrodd y mater i'r GOC ei hun. Os na fydd y busnes yn dilyn y cyngor, bydd angen i'r PYO ystyried pa gamau pellach i'w cymryd, a gallai hyn gynnwys adrodd y mater i'r GOC.

Senario 2

Mae'r busnes cofrestredig yn cynnig bod y practis yn dechrau defnyddio staff heb gymhwyso i gyflenwi i blant o dan 16 oed er mwyn gwneud mwy o elw. Mae'r PYO yn gwybod bod arfer o'r fath yn anghyfreithlon ac yn cynghori'r busnes i beidio â chymryd y cam hwn. Os bydd y busnes yn dilyn cyngor y PYO, ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Os na fydd y busnes yn dilyn y cyngor, dylai'r PYO adrodd y mater hwn i'r GOC.

Senario 3

Mae'r PYO yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod aelodau staff cofrestredig yn cael eu gwirio bob chwe mis ar gofrestr y GOC. Daw i'r amlwg yn ystod archwiliad fod gweithiwr locwm wedi gweithio am flwyddyn fel optometrydd yn cynnal profion golwg ond nad yw wedi cofrestru gyda'r GOC. Mae'r PYO yn cytuno â'r busnes cofrestredig y dylid galw'r cleifion yn ôl, y dylid cysylltu â'r GIG mewn perthynas â hawliadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, ac y dylid cyfeirio'r mater i'r GOC (cyfeirio'r unigolyn am ymarfer anghyfreithlon a hunangyfeirio gan y busnes cofrestredig). Bydd hefyd yn adolygu prosesau mewnol er mwyn deall sut mae'r mater hwn wedi codi (e.e. pam na sylwyd arno mewn archwiliadau blaenorol) ac yn gwneud newidiadau angenrheidiol yn y mesurau sydd eisoes ar waith, yn cynnwys hyfforddiant staff ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol am gyflawni'r prosesau mewnol.

Senario 4

Mae unigolyn cofrestredig yn mynd yn groes i bolisi'r cwmni drwy beidio â chyrhaedd y safonau sylfaenol ar gyfer cynnal profion golwg a gwrthod caniatáu i gleifion ddod â gwarchodwr. Mae'r busnes cofrestredig wedi ei fodloni bod polisïau'r cwmni'n glir a bod y PYO wedi sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r rhain drwy hyfforddiant a monitro cydymffurfiaeth yn rheolaidd. Yn dilyn ymchwiliad mewnol, mae'r PYO yn mynegi pryderon am addasrwydd yr unigolyn cofrestredig i ymarfer ac mae'n cyfeirio'r mater i'r GOC.

A ddylai'r gofynion fod yn gymwys i'r holl fusnesau neu rai ohonynt yn unig?

118. Y tri phrif fath o strwythur busnes yw cyrff corfforedig, partneriaethau ac unig fasnachwyr. Un opsiwn yw y byddai'r gofynion am PYO yn gymwys i gyrff corfforedig yn unig gan ei bod yn glir mewn strwythurau busnes eraill fod y cyfrifoldeb am gydymffurfio wedi ei ymddiried i'r partneriaid neu'r unig fasnachwr. Fodd bynnag, ffordd arall o edrych ar hyn yw bod unig fasnachwr a phartneriaethau yn gallu bod yn fusnesau mawr sy'n cyflogi nifer o bobl mewn nifer o wahanol fangreoedd, ac felly y dylai'r gofynion am PYO fod yn gymwys i'r holl fusnesau cofrestredig.
119. Mae angen ystyried a ddylai'r gofynion fod yn gymwys i fusnesau o faint penodol yn unig, e.e. ar sail nifer y mangreoedd neu staff. Drwy gyfyngu cwmipas y cynigion, gellid eu gwneud yn fwy cymesur, yn seiliedig ar risg ac wedi eu targedu. O safbwynt arall, byddai gosod trothwy yn gallu bod yn fater mympwyol a byddai'n arwain at heriau o ran cymhlethdod a chydymffurfiaeth, er enghraifft os bydd maint y busnes yn newid.
120. Bydd rhai o'r busnesau optegol mwyaf wedi cyflogi rhywun eisoes i fod yn gyfrifol am arwain ar gydymffurfio â rheoliadau. Yn achos busnesau llai, rydym yn rhag-weld y byddai gweithiwr presennol yn cael ei enwebu ar gyfer y rôl hon. Ni ddylai fod yn angenrheidiol i fusnesau bach gyflogi staff ychwanegol ac mae'n bwysig cofio nad yw'r cynigion yn cyflwyno gofynion newydd sylweddol am gydymffurfio.
121. Mae nifer bach o fusnesau sy'n eiddo i leygwr lle nad oes gweithwyr cofrestredig parhaol. Os oes rhaid i'r PYO fod wedi ei gofrestru a bod yn weithiwr parhaol (gweler isod), ni fyddai busnesau o'r fath yn gallu cydymffurfio. Mewn sefyllfaoedd prin fel y rhain, mae'n bosibl y bydd angen esemptio busnesau o'r fath rhag y darpariaethau ar gyfer PYO ac y bydd y cyfrifoldeb am gydymffurfio yn perthyn i'r busnes cofrestredig.

Sut bydd hyn yn cydweddu â strwythurau busnes fel cyd-fentrau a masnachfreintiau?

122. Rydym yn rhag-weld y byddai deiliad y swydd yn uwch-reolwr yn y rhiant-gwmni i gyd-fynd â'n ffocws ar systemau, polisïau a diwylliant busnesau.

A ddylai'r unigolyn fod wedi ei gofrestru?

123. Credwn y dylai'r unigolyn fod yn unigolyn cofrestredig cymwysedig (un ai'n optometrydd neu'n optegydd cyflenwi). Gan y bydd yr unigolyn yn arfer rheolaeth sylweddol dros y ffordd o gynnal y busnes, credwn y dylai ddod o dan y dyletswyddau proffesiynol a ddylai fod yn sail i ymarfer mewn gwasanaethau optegol. Hefyd, oherwydd natur y cyfrifoldebau, bydd angen arbenigedd clinigol i'w cyflawni'n effeithiol. Dylai'r gofyniad hwn fod o gymorth i sicrhau ymddiriedaeth yn y system reoleiddio ymysg y cyhoedd a gweithwyr

proffesiynol. Gan ein bod yn cynnig dileu'r gofynion bod mwyafrif y cyfarwyddwyr wedi eu cofrestru, os bydd y PYO wedi ei gofrestru, byddai hyn yn sicrhau bod arweinyddiaeth broffesiynol yn parhau mewn busnesau optegol.

A ddylai'r unigolyn gael ei gyflogi gan y busnes?

124. Credwn y dylai'r unigolyn fod yn uwch-reolwr sy'n cael ei gyflogi gan y busnes. Byddai hyn yn rhoi'r awdurdod sydd ei angen ar ddeiliad y swydd i gael mynediad at wybodaeth a chymryd rhai mathau o benderfyniad, ac i gael atebolrwydd priodol o fewn y busnes ac i'r GOC.

A allai rhywun fod yn PYO i nifer o fusnesau?

125. Rydym am osgoi sefyllfaoedd lle bydd rhywun yn cyflawni rôl symbolaidd neu rôl ymgynghorol mewn nifer o fusnesau oherwydd byddai hyn yn gallu tanseilio'r angen i gael mynediad at wybodaeth, yr awdurdod i wneud rhai penderfyniadau a llinellau atebolrwydd priodol. Fel arfer, er mwyn cwrdd â'r gofynion hyn bydd deiliad y swydd yn gweithio i un busnes neu grŵp o fusnesau. Yn y rhan fwyaf o fusnesau optegol, ni fyddai'r rôl yn galw fel arfer am sgiliau neu brofiad blaenorol penodol a byddai'n rhan o gyfrifoldebau presennol y gweithiwr (gallai hyn fod yn wahanol yn achos busnesau mawr sydd â gweithrediadau cymhleth). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd angen i'r gofynion gydweddu â llawer math o fodelau busnes.

A fyddai set o safonau ymddygiad ar wahân ar gyfer y PYO?

126. Bydd angen i drefniadau rheoleiddio'r dyfodol fod yn rhai sy'n rhyngweithio â safonau ymarfer y GOC ar gyfer unigolion a busnesau cofrestredig a datganiadau polisi perthnasol gan y GOC, yn cynnwys gofynion yn ymwneud â dirprwyo a goruchwyllo.
127. Ein barn ar hyn o bryd yw na fyddai angen set o safonau ar wahân ar gyfer y PYO oherwydd bydd y cyfrifoldebau craidd yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth a byddwn yn gallu dal yr unigolyn yn atebol ar sail y rhain. Rydym hefyd yn disgwyl y byddwn yn cwblhau adolygiad o safonau busnes y GOC cyn i ddeddfwriaeth newydd ddod i rym. Fodd bynnag, gan y byddai hyn yn nodwedd newydd yn nhrefniadau rheoleiddio'r GOC, credwn y byddai'n beth doeth cynnwys pwerau galluogi mewn deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu i ni gyflwyno safonau ar wahân ar gyfer y PYO yn y dyfodol, yn ôl yr angen.
128. Mae ein hymchwil yn dangos bod yr arferion mewn sectorau eraill yn wahanol. Er enghraifft, mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) wedi copïo'r ddeddfwriaeth i'w safonau i raddau helaeth, mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) wedi mabwysiadu rheolau ymddygiad ychwanegol ar gyfer yr holl uwch-reolwyr ac mae'r GPhC yn datblygu dull o weithredu ar hyn o bryd a fydd yn galw am osod safonau penodol.

A ddylid cael unrhyw ofynion o ran addasrwydd, fel profion person addas a phriodol, cymeradwyo ymgeiswyr ymlaen llaw gan y GOC, rhestr o bersonau wedi eu hanghymhwyso?

129. Nid ydym yn credu y dylai deiliaid swyddi gael eu cymeradwyo ymlaen llaw gan y GOC, gan y byddai hynny'n anghymesur o ystyried y proffil risg is mewn gwasanaethau optegol o gymharu â gwasanaethau ariannol. Er hynny, gallem ddefnyddio rheolau neu ganllawiau i ddisgrifio rhai nodweddion hanfodol y dylai busnesau ofalu eu bod yn bresennol.
130. Gan fod deiliad y swydd i fod yn unigolyn cofrestredig, gallai wynebu camau gorfodi os bydd amhariad ar ei addasrwydd i ymarfer. Os caiff yr unigolyn cofrestredig ei atal neu os tynnir ei enw oddi ar y gofrestr, byddai wedi cael ei ddatgymhwyso i bob pwrpas rhag gweithredu fel PYO (nes i'r sancsiwn ddod i ben o leiaf). Byddai disgwyl i fusnesau cofrestredig arfer diwydrwydd dyladwy drwy wirio cofrestr gyhoeddus y GOC cyn penodi PYO a byddent hefyd yn gallu gwneud defnydd o'r system 'tystlythyr enw da' bresennol. Felly, nid ydym yn credu bod angen rhestr ffurfiol o bersonau anghymwysedig.

Pa wybodaeth am PYOau a ddylai ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus?

131. Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd priodol, credwn y dylai enw'r deiliad swydd ymddangos ar gofrestr busnesau'r GOC ac fel anodiad ar y gofrestr o unigolion. Byddai gofynion a phrosesau yn cael eu cynnwys mewn rheolau ar gyfer hysbysu'r GOC pan fydd yr unigolyn yn cael ei benodi a phan fydd yn ymadael â'r rôl.

Atodiad 5: Dull gorfodi a sancsiynau

Cefndir

Proses bresennol addasrwydd i ymarfer / cynnal busnes

132. Amlinellir y broses addasrwydd i ymarfer ar gyfer unigolion a'r broses addasrwydd i gynnal busnes ar gyfer busnesau, a'r sancsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y ddau, yn y tablau isod.
133. Mae Tabl 1 yn amlinellu'r broses bresennol ar gyfer cofrestreion unigol a busnesau. Y gwahaniaeth rhyngddynt yw'r set o feini prawf derbyn a weithredir a bod cofrestreion unigol yn gallu bod yn destun asesiad perfformiad neu iechyd. Mae gweddill y broses yr un fath.
134. Mae Tabl 2 yn amlinellu'r sancsiynau y gallwn eu cymryd yn erbyn cofrestreion busnes ac unigol ar hyn o bryd, ac mae'r rhain yr un fath. Os bydd pwyllgor addasrwydd i ymarfer yn penderfynu na ddylid rhoi sancsiwn gan nas amharir ar addasrwydd i ymarfer / cynnal busnes, efallai y rhoddir rhybudd am ymddygiad neu berfformiad yn y dyfodol.

Tabl 1: Proses addasrwydd i ymarfer / cynnal busnes

Cam addasrwydd i ymarfer / cynnal busnes	A yw'n berthnasol i gofrestreion busnes?	A yw'n berthnasol i gofrestreion unigol?
Gweithredu cychwynnol (brysbennu)	Ydy	Ydy
Meini prawf derbyn wedi'u gweithredu	Ydy – meini prawf penodol ar gyfer cofrestreion busnes	Ydy – meini prawf penodol ar gyfer cofrestreion unigol
Cau achos (os <i>nad</i> yw cwyn yn cyfateb â honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer / cynnal busnes dan adran 13D y Ddeddf Optegwyr)	Ydy	Ydy
Ymchwilio i'r pryder (os yw cwyn yn cyfateb â honiad o amhariad ar addasrwydd i ymarfer / cynnal busnes dan adran 13D y Ddeddf Optegwyr)	Ydy	Ydy
Cam archwiliwr achos (CE)	Ydy	Ydy
Pwyllgor Ymchwilio mewn achosion lle na cheir cytundeb rhwng archwilwyr achos	Ydy	Ydy

Cam addasrwydd i ymarfer / cynnal busnes	A yw'n berthnasol i gofrestreion busnes?	A yw'n berthnasol i gofrestreion unigol?
Pwyllgor Ymchwilio yn rhoi cyfarwyddyd i gynnal asesiad o iechyd neu berfformiad cofrestrai	Nac ydy	Ydy
Cau achos trwy ddatrysiaid panel cytunedig	Ydy	Ydy
Gorchymyn interim	Ydy	Ydy
Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer	Ydy	Ydy

Tabl 2: Sanctsiynau

Math o sanctsiwn	A yw'n berthnasol i gofrestreion busnes?	A yw'n berthnasol i gofrestreion unigol?
Cosb ariannol – gall hwn fod yn ychwanegol i neu yn lle gorchymyn dileu, atal dros dro, neu orchymyn cofrestriad amodol	Ydy, hyd at £50,000 – dylid ystyried maint ac adnoddau ariannol y busnes ¹⁸	Ydy, hyd at £50,000
Cofrestriad amodol – gall y cofrestrai aros ar y gofrestr ar yr amod eu bod yn cydymffurfio ag amodau penodol, megis ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol. Dim ond am uchafswm o dair blynedd y bydd modd gosod amodau ¹⁹	Ydy	Ydy
Atal o'r gofrestr dros dro – caiff yr unigolyn eu tynnu oddi ar y gofrestr am gyfnod, sy'n golygu nad ydynt yn gallu ymarfer mwyach (neu os ydynt yn fyfyrwyr, parhau gyda'u haddysg). 12 mis yw'r uchafswm sy'n bosibl o ran hyd y cyfnod hwn ²⁰	Ydy	Ydy
Dileu o'r gofrestr – tynnir yr unigolyn oddi ar y gofrestr ac ni fydd modd iddynt	Ydy	Ydy

¹⁸ [hearings-and-indicative-sanctions-guidance-final.pdf \(optical.org\)](https://www.optical.org/hearings-and-indicative-sanctions-guidance-final.pdf)

¹⁹ Ni osodwyd unrhyw amodau ar gofrestrai busnes yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf.

²⁰ Nid oes unrhyw gofrestrai busnes wedi cael eu hatal o gofrestr GOC dros dro yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf.

Math o sancsiwn	A yw'n berthnasol i gofrestreion busnes?	A yw'n berthnasol i gofrestreion unigol?
ymarfer ²¹ (gallant wneud cais i adfer eu henw arni ar ôl 24 mis ²²)		

Honiadau yn erbyn cofrestreion busnes

135. Mae'r adran hon yn amlinellu'r mathau o honiadau y mae modd eu gwneud yn erbyn cofrestreion busnes a'r llwybr er mwyn ymchwilio iddynt h.y. gan GOC neu'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS).
136. Yn gyntaf, o ran addasrwydd i gynnal busnes, byddwn yn penderfynu a fydd y [Safonau i Fusnesau Optegol](#) wedi cael eu torri, ac yna byddwn yn ystyried a fyddai'r achos hwn o dorri amodau yn cyfateb â honiad o amhariad ar addasrwydd i gynnal busnes dan [adran 13D\(3\) Deddf Optegwyr 1989](#). Os bydd y gŵyn yn bodloni un o'r meini prawf neu fwy, agorir ymchwiliad.
137. Gall unrhyw un o'r canlynol, neu bob un ohonynt, beri amhariad ar gofrestrai busnes:
- camymddwyn gan y cofrestrai busnes neu gan un o'i gyfarwyddwyr;
 - arferion neu batrymau ymddygiad sy'n digwydd yn y busnes –
 - yr oedd y cofrestrai yn gwybod amdanynt neu mae'n rhesymol disgwyl y byddent wedi gwybod amdanynt; ac
 - sy'n cyfateb â chamymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol;
 - y cofrestrai busnes yn annog arferion neu batrymau ymddygiad y byddent yn cyfateb â chamymddwyn neu berfformiad proffesiynol diffygiol, neu y byddent pe baent yn cael eu cyflawni;
 - euogfarnu neu roi rhybudd i'r cofrestrai busnes neu un o'i gyfarwyddwyr;
 - camau yn yr Alban yn erbyn y cofrestrai busnes neu un o'i gyfarwyddwyr, yn unol ag adran 13D(3)(e) ac (f); a
 - phenderfyniad gan gorff arall²³.
138. Mae modd gwneud honiad yn erbyn y busnes a/neu ei gyfarwyddwr(cyfarwyddwyr) cofrestredig. Gan ddibynnu ar natur yr honiad, gall cyfarwyddwr sydd wedi cofrestru gyda GOC fod yn atebol trwy'r Safonau i

²¹ Nid oes unrhyw gofrestrai busnes wedi cael eu dileu o gofrestr GOC yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf.

²² [Canllawiau GOC am Wrandawiadau a Sancsiynau Dangosol](#)

²³ Meini Prawf Derbyn GOC i Gofrestreion Busnes

Fusnesau Optegol neu'r Safonau Ymarfer i Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi.

139. Mae'r mathau o honiadau y gellir eu gwneud dan 'gamymddwyn' yn cynnwys y canlynol²⁴:

- methiannau parhaus i gadw data cleifion yn ddiogel (honiad yn erbyn y cofrestrai busnes);
- methiant i ddatgelu rhybudd/euogfarn cyfarwyddwr llewg (honiad yn erbyn y busnes a/neu gyfarwyddwr cofrestredig);
- methu cael polisïau cadarn a chlir yn eu lle a/neu fethu sicrhau cydymffurfiaeth â nhw (honiad yn erbyn y cofrestrai busnes);
- caniatáu i unigolion anghofrestredig gyflawni swyddogaethau sydd wedi cael eu cyfyngu gan Ddeddf Optegwyr 1989 i gofrestreion GOC (honiad yn erbyn y cofrestrai busnes);
- methu rheoli gweithgarwch chwythu'r chwiban mewn ffordd briodol (honiad yn erbyn y cofrestrai busnes); a
- hysbysebu anghywir neu gamarweiniol sy'n arwain at risg posibl i'r cyhoedd (honiad yn erbyn y cofrestrai busnes).

140. Gallai achosion sy'n annhebygol o gyfateb â 'chamymddwyn' gynnwys²⁵:

- pryderon y rhoddwyd sylw priodol iddynt yn lleol a byddai ymyrraeth rheoliadol yn gam anghymesur;
- mân faterion anghlinigol, megis delio â chwynion mewn ffordd wael;
- anghydfodau ariannol neu gytundebol;
- materion cyflogaeth; a
- chwynion am gost profion llygaid / triniaeth a/neu gost dyfeisiau optegol.

141. Nid yw'r rhain yn rhestrau sy'n cynnwys popeth, ac os hoffech gael rhagor o wybodaeth am fathau eraill o honiadau y gallent gyfateb ag amhariad ar addasrwydd i gynnal busnes, trowch at [Feini Prawf Derbyn i Gofrestreion Busnes](#) GOC.

142. Efallai y bydd hi'n well i gyrff eraill ddelio â rhai achosion, gan gynnwys materion defnyddwyr y mae'n well bod OCCS yn delio â nhw. Ariannir OCCS gan GOC ac mae'n delio â chwynion sy'n ymwneud â defnyddwyr. Mae'n

²⁴ Meini Prawf Derbyn GOC i Gofrestreion Busnes

²⁵ Meini Prawf Derbyn GOC i Gofrestreion Busnes

cynnig gwasanaeth cyfryngu am ddim rhwng cleifion a'r busnes/gweithiwr optegol proffesiynol er mwyn helpu i ddatrys achosion. Mae'r ystadegau allweddol o adroddiad blynyddol 2023-24²⁶ fel a ganlyn:

- cafodd OCCS 1,757 o ymholiadau rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 (sy'n cynrychioli cynnydd o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol);
- roedd 1,675 o ymholiadau o fewn cylch gwaith OCCS a gwnaethpwyd gwaith cyfryngu gyda 348 o ymholiadau;
- cwblhawyd 85% o'r cwynion o fewn proses OCCS;
- mathau o gwynion:
 - nwyddau a gwasanaethau 40%;
 - gofal cwsmeriaid 29%;
 - cynnyrch 6%;
 - taliadau 6%; a
- daeth mwyafrif y cwynion trwy wefan OCCS (63%), a dim ond 81 o gwynion (5%) a atgyfeiriwyd o dîm Addasrwydd i Ymarfer GOC.

Data cynnal busnes / addasrwydd i ymarfer GOC

143. Mae'r adran hon yn cynnig trosolwg o nifer yr achosion a gafodd eu dwyn yn erbyn cofrestreion busnes.

144. Cawsom 1,976 o gwynion rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2024. O blith y rhain, agorwyd 531 o ymchwiliadau – 488 yn erbyn cofrestreion unigol (92%) a 43 yn erbyn cofrestreion busnes (8%). Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau'r ymchwiliadau hynny lle y gwnaethpwyd penderfyniad, neu pan fo'r achos wedi cael ei gwblhau.

Tabl 3: Canlyniad ymchwiliadau 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2024

	Cofrestreion unigol (488)	Cofrestreion busnes (43)
Wedi'u cau gan archwilwyr achos (neu trwy gamau cau gweinyddol gan Gofrestrydd) heb unrhyw gamau pellach	116	23
Wedi'u cau gan archwilwyr achos heb unrhyw gamau pellach a rhybudd nad yw'n rhybudd cyhoeddus	55	5
Wedi'u cau gan archwilwyr achos heb unrhyw gamau pellach, gyda chynghor	22	0

²⁶ [public-council-meeting-26-june-2024-meeting-papers.pdf \(optical.org\)](#)

	Cofrestreion unigol (488)	Cofrestreion busnes (43)
Atgyfeiriwyd i Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer	159	3 ²⁷

Dewisiadau polisi

145. Er gwaethaf nifer gymharol isel y cwynion yr ydym yn eu cael ar hyn o bryd ynghylch cofrestreion busnes, mae'n bwysig bod gennym gyfres effeithiol o sancsiynau sydd ar gael er mwyn diogelu cleifion a chynnal hyder y cyhoedd.
146. O ran y cyd-destun gofal iechyd ehangach, rydym yn ystyriol o'r heriau sy'n gallu codi wrth reoleiddio busnesau. Amlygodd yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (PSA) rai o'r heriau hyn yn ei adroddiad 'Gofal mwy diogel i bawb', lle y dywedont y gallai'r diffyg cydbwysedd o ran pŵer rhwng rheoleiddwyr a chorfforaethau mawr sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd, effeithio ar allu rheoleiddwyr i orfodi'r sancsiynau mwyaf difrifol²⁸.

"Nid yn unig y caiff rheoleiddwyr eu trechu'n ariannol gan fusnesau mawr, ond ceir cwestiwn hefyd ynghylch pa mor ymarferol y byddai, mewn gwirionedd, i reoleiddwyr orfodi'r sancsiwn mwyaf difrifol ar gadwyn fawr, sef ei dileu o'r gofrestr. Mae gan Boots, er enghraifft, dros 2,200 o siopau yn y DU, mae gan Lloyds Pharmacy dros 1,500 ac mae gan Specsavers bron i 2,000. Mae'r busnesau hyn yn cyflawni rôl hanfodol wrth ddarparu gofal iechyd yn y gymuned. Pe bai rheoleiddwyr yn cymryd y cam mwyaf eithafol o ddileu'r busnesau hyn o'r gofrestr, byddai hynny'n gadael nifer fawr o bobl – yn y tymor byr o leiaf – heb ddarparwr gofal iechyd y gallant ddibynnu arno. I bob pwrpas, gallai'r busnesau hyn fod yn agos at fod yn rhy fawr i fethu."

147. O ran y sancsiynau mwy difrifol, mae'n anarferol i ni roi'r ddirwy uchaf y gallwn ei rhoi, ac nid ydym wedi dileu cofrestrai busnes yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf. Yn 2019, rhoddom y ddirwy uchaf o £50,000 i Boots Opticians am fethiannau yn eu polisi chwythu'r chwiban a'u diffyg edifeirwch a dirnadaeth. Gan roi hyn mewn persbectif, roedd trosiant blyneddol Boots yn £167 miliwn y flwyddyn honno.
148. Ceir perygl hefyd, wrth ddileu cwmni, y byddai cwmni 'ffenics' yn codi o asedau cwmni sydd wedi methu, gan barhau fel cwmni newydd i bob pwrpas. Er nad yw hwn yn fater unigryw i'r sector optegol, mae'n risg y dylem fod yn ymwybodol ohono.

²⁷ O blith yr atgyfeiriadau hyn, mae dau yn aros am wrandawriad o hyd a chaewyd y llall gan archwilywyr achos trwy Reol 16 (terfynu atgyfeiriad i Bwyllgor Addasrwydd i Ymarfer).

²⁸ Awdurdod Safonau Proffesiynol (Gofal mwy diogel i bawb) [Cydwethio er mwyn sicrhau gofal mwy diogel i bawb \(professionalstandards.org.uk\)](https://professionalstandards.org.uk)

149. Er na cheir tystiolaeth o unrhyw risg uniongyrchol i ddiogelu'r cyhoedd o ran y pwerau sydd gennym ar hyn o bryd, wrth i broffil risg y sector gynyddu, rhaid i ni gynnal pwerau rheoliadol effeithiol er mwyn diogelu cleifion a'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y sancsiynau sydd ar gael i ni yn gymesur ac yn briodol i'r methiant sydd wedi digwydd.
150. O'r herwydd, credwn y byddai modd gwella'r model trwy roi mwy o bwerau i GOC yn y meysydd canlynol:
- rhoi cosbau ariannol heb eu capio, gyda chymorth canllawiau wedi'u diweddarau am sancsiynau; a
 - chyflwyno pŵer i ymweld â busnes fel rhan o'r broses addasrwydd i gynnal busnes.

Cynnig 1: Pŵer i roi cosb ariannol heb ei chapio ar gofrestreion busnes

151. Ar hyn o bryd, gallwn roi cosb ariannol o hyd at uchafswm o £50,000. Nodir y terfyn uchaf yn y Ddeddf Optegwyr, ond mae'r swm yn dyddio'n ôl i ddeddfwriaeth 1958, pan y'i gosodwyd wrth gyfeirio at y dirwyon sydd ar gael i ynadon²⁹. Yn unol â'n deddfwriaeth, ein prif reswm dros orfodi unrhyw sancsiwn, gan gynnwys cosb ariannol, yw peidio cosbi, ond cynorthwyo ein hamcan statudol cyffredinol o ddiogelu'r cyhoedd. Mae canlyn yr amcan cyffredinol hwn yn golygu canlyn amcanion eraill a nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau, a hyrwyddo a chynnal ymddygiad a safonau cywir ar gyfer cofrestreion busnes.
152. Er mwyn parhau i gyflawni ein hamcanion statudol a sicrhau bod ein dull gweithredu yn addas i'r diben ac yn ddiogel at y dyfodol, bwriadwn ddisodli'r cap o £50,000, fel y nodir mewn deddfwriaeth, gyda chosb ariannol heb ei chapio. Fel yr ydym yn gwneud nawr, byddem yn ystyried maint ac adnoddau ariannol y busnes wrth bennu'r swm, yn unol â'n [Canllawiau am Wrandawiadau a Sancsiynau Dangosol](#). Byddem yn diweddarau'r canllawiau hyn er mwyn hyrwyddo cysondeb wrth wneud penderfyniadau, cynnig tryloywder ac esbonio sut y byddai cosbau ariannol yn cael eu cyfrifo er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur yn ôl maint y busnes a difrifoldeb y tor rheol. Byddai'r canllawiau yn rhoi sylw i faterion yn ymwneud â maint ac adnoddau ariannol, megis y berthynas gyda'r trosiant (a drafodir ymhellach isod), ac rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y rhain yn ystyriaethau cymhleth.
153. Mae'r rhesymau dros y newid arfaethedig fel a ganlyn:
- gan ystyried y cyd-destun ehangach, mae modelau busnes wedi newid yn sylweddol dros y 30 mlynedd diwethaf ac mae'n bwysig bod cosbau

²⁹ Adran 1 Deddf Optegwyr 1989

ariannol yn cael eu gosod ar lefel sy'n uwch na'r elw a wneir wrth dorri ein safonau. Er enghraifft, amcangyfrifir:

- bod rhwng 75% ac 80% o ofal yn cael ei ddarparu gan gorfforaethau mawr nawr¹²;
- bod gan 23% o bractisiau annibynnol drosiant o £500,000-£1 miliwn a bod gan 10% drosiant blynyddol o dros £1 miliwn; ac
- mae gan 27% o siopau cadwyn drosiant blynyddol o rhwng £500,000-£1 miliwn ac mae gan 64% drosiant blynyddol o dros £1 miliwn³⁰;
- byddai swm heb ei gapio yn addas ar gyfer y dyfodol, gan osgoi'r angen i geisio newid deddfwriaethol pellach pe bai cap diwygiedig yn rhy isel ar ôl cyfnod o amser;
- mae maint a strwythur cofrestreion busnes yn amrywiol, gan amrywio o bractisiau teuluol bychain i enwau cyfarwydd rhyngwladol. Mae gan gofrestreion busnes amrediad o strwythurau gan gynnwys masnachfreintiau a phartneriaethau cyd-fentro. Byddai pwerau heb eu capio yn cynnig yr hyblygrwydd mwyaf i osod cosbau ariannol priodol fesul achos;
- mae gennym hanes o fod yn gynnil o ran ein defnydd o gosbau ariannol. Byddai cosbau ariannol yn cael eu cyfrifo ar sail canllawiau a gyhoeddir a byddent yn cael eu gorfodi gan baneli addasrwydd i ymarfer. Dylai'r trefniadau hyn gynnig hyder i fusnesau, yswirwyr ac eraill y caiff y pwerau hyn eu defnyddio mewn ffordd briodol; ac
- mae gan reoleiddwyr eraill y pŵer i roi costau ariannol heb eu capio – gweler yr atodiad.

154. Un newid polisi amgen yw pennu uchafswm uwch ar gyfer y gosb ariannol mewn deddfwriaeth. Er enghraifft, byddai £50,000 ym 1958 yn cyfateb â bron i £1 miliwn ym mhrisiau heddiw³¹. Fodd bynnag, mae unrhyw uchafswm yn fympwyol ac fe allai ddangos ei oed yn gyflym, gan gyfyngu ar ein gallu i osod sancsiwn priodol sy'n gymesur i ddifrifoldeb y tor amod ac y byddai gofyn cael deddfwriaeth newydd er mwyn ailosod y swm.

155. Model arall yw cysylltu'r gosb ariannol gyda chanran benodedig o'r trosiant, a fyddai'n cael ei nodi mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn debygol o fod rhwng pump a deg y cant, ar sail y modelau a ddefnyddir mewn sectorau eraill. Mewn system o'r fath, byddai'r gosb ariannol yn gymesur â maint y busnes, a gan amlaf, byddai'r uchafswm sydd ar gael yn debygol o fod yn uwch na'r elw ariannol a sicrhawyd trwy beidio cydymffurfio. Mae'r dewis polisi hwn yn addas

³⁰ [goc-business-registrant-survey-report-final.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/80000/goc-business-registrant-survey-report-final.pdf) ([optical.org](https://www.optical.org))

³¹ Gan ddefnyddio cyfleuster cyfrifo chwyddiant ar-lein Banc Lloegr, mae £50,000 ym 1958 yn cyfateb â £988,104.71 ym mis Mehefin 2024.

ar gyfer y dyfodol, ac mae'n osgoi'r angen i ddiweddarau deddfwriaeth oherwydd y byddai'r gosb ariannol uchaf sydd ar gael yn codi wrth i fusnesau dyfu.

156. Fodd bynnag, mae hyn yn codi cyfres o heriau ynghylch cyfrifo'r gosb ariannol, er enghraifft, a ddylai fod yn gysylltiedig â'r trosiant gan nwyddau a gwasanaethau optegol yn unig (na chaiff ei adrodd mewn cyfrifon efallai) neu drosiant cyfan gwbl y busnes, ar sail trosiant byd-eang neu yn y DU, trosiant y rhiant-gwmni neu fasnachfreintiau unigol a mentrau ar y cyd ac ati. Efallai y bydd amgylchiadau hefyd pan fydd gan fusnes fodd ariannol sylweddol y tu hwnt i'w drosiant, a allai newid bob blwyddyn, felly efallai na fydd uchafswm o ran y gosb ariannol sy'n gysylltiedig â throsiant yn ddigonol er mwyn diogelu'r cyhoedd. Ceir risg hefyd y gallai busnesau ailstrwythuro er mwyn talu cosb ariannol is, pe bai sancsiwn yn cael ei roi.

Cynnig 2: Cyflwyno pŵer i ymweld â busnes fel rhan o'r broses addasrwydd i gynnal busnes

157. Yn ein hymateb i'n [galwad am dystiolaeth](#) (2022), dywedem nad oeddem yn credu bod rhaglen gynhwysfawr o archwiliadau rheolaidd neu gyson yn angenrheidiol. Fodd bynnag, rydym yn archwilio'r dewis o ymweld â busnes pan fynegir pryder fel rhan o'r broses addasrwydd i gynnal busnes.
158. Wrth i fusnesau optegol ehangu eu cylch gwaith clinigol, gan fabwysiadu technoleg a deallusrwydd artiffisial yn gynyddol fel rhan o'u gwasanaethau, credwn y gallai'r pŵer hwn ein helpu i ddiogelu cleifion a'r cyhoedd yn well. Mae [gwaith ymchwil](#) a gomisiynwyd gennym yn ddiweddar yn dangos bod busnesau yn disgwyl dyblu eu darpariaeth gwasanaethau glawcoma a phresgripsiynu annibynnol i gleifion dros y ddwy flynedd nesaf, ac mae chwarter ohonynt yn disgwyl defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI).
159. Rydym wedi nodi dwy enghraifft o'r ffordd y gallem ddefnyddio'r pŵer hwn.

Sefyllfaoedd enghreifftiol: pwerau i ymweld â phractis optegwyr / optometryddion ar ôl i rywun fynegi pryder

Sefyllfa 1

Mynegwyd pryder am bractis optegydd / optometrydd. Mynegwyd y pryder gan aelod o staff bod y llwyth gwaith yn y practis yn anodd ymdopi ag ef. Maent wedi amlinellu bod gormod o gleifion i'w gweld a'u bod yn aml dan bwysau i ruthro elfennau o'r prawf golwg / archwiliad llygaid. Maent o'r farn na allant gynnal profion golwg / archwiliadau llygaid cynhwysfawr, a'u bod yn rhoi cleifion mewn perygl o gael presgripsiynau anghywir a/neu fethu diagnosis. Maent wedi codi hyn yn fewnol ond nid oes unrhyw gamau wedi cael eu cymryd. Nid yw Cyfarwyddwr y busnes yn credu bod pryder, a bod angen i'r aelod o staff weithio mewn ffordd fwy effeithlon gan bod aelodau eraill o staff yn gallu gweld niferoedd y cleifion heb unrhyw oedi. Mae'r Cyfarwyddwr wedi ymateb i ymholiadau cychwynnol gan

GOC, ond amlinellodd bod hwn yn fater sy'n ymwneud â chymhwysedd yr unigolyn sy'n mynegi'r pryder.

Safonau GOC perthnasol y gallent fod wedi cael eu torri:

- Safon 2.3: Mae gennym chi system llywodraethu clinigol yn ei lle;
- Safon 3.1.3: Sicrhau nad yw pwysau gweithredol a masnachol yn cyfyngu ar weithredu barn broffesiynol mewn ffordd afresymol; a
- Safon 3.1.4: Neilltuo amser digonol, gymaint ag y bo modd, i ystyried anghenion unigol cleifion wrth ddarparu gofal.

Sut y gallwn ddefnyddio pŵer i ymweld yn ystod yr ymchwiliad: Byddai'r pŵer hwn yn caniatáu i GOC gael dogfennaeth ac arsylwi'r arfer yn uniongyrchol. Byddai GOC yn gallu cael mynediad i gofnodion a chofnodion dyddiadur er mwyn asesu a yw'r llwyth gwaith a drefnir yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn ogystal, byddai'n galluogi GOC i asesu llif cleifion a sicrhau bod profion golwg / archwiliadau llygaid yn cael eu cyflawni. Byddai modd i staff eraill arsylwi archwiliadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn, ac nad oes unrhyw dechnegau i wella effeithlonrwydd er anfantais i ofal cleifion.

Sefyllfa 2

Mae aelod o'r cyhoedd wedi mynegi pryder am Optegwyr ABC. Roedd y claf wedi mynychu prawf golwg / archwiliad llygaid arferol. Mae'r claf wedi amlinellu bod ganddynt hanes meddygol cymhleth. Ar ôl cyrraedd y practis, amlinellodd y claf y ffaith nad oedd gan y practis ystafell ymgynghori, ond yn lle hynny, safle yn y siop gyda llen wedi'i thynnu o'i hamgylch. Roedd y claf yn pryderu y gallai eraill glywed natur gyfrinachol yr archwiliad a'u hanes meddygol. Cwynodd y claf a holodd am weithdrefn gwyno y busnes, a dywedwyd wrthynt nad oedd gweithdrefn gwyno ffurfiol yn bodoli. Gwnaeth GOC ymchwiliadau cychwynnol a dywedodd Cyfarwyddwr y busnes bod ganddynt le preifat o ran yr acwsteg er mwyn cynnal ymgynghoriadau, a'u bod wastad yn ymateb i gwynion yn ysgrifenedig.

Safonau GOC perthnasol y gallent fod wedi cael eu torri:

- Safon 1.2: Darparir gofal i gleifion mewn amgylchedd addas;
- Safon 2.4: Parchir cyfrinachedd; a
- Safon 2.1.4: Mae'n pennu protocol cwyno clir ac mae'n sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'u sianelau cwyno. Mae'r rhain yn cynnwys y busnes, Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS), GOC, GIG neu wasanaethau'r ombwdsmon pan fo hynny'n berthnasol.

Sut y gallwn ddefnyddio pŵer i ymweld yn ystod yr ymchwiliad: Byddai'r pŵer hwn yn caniatáu asesiad o'r safle er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau GOC. Byddai'n caniatáu i GOC asesu a yw'r busnes optegol yn cynnig amgylchedd sy'n hwyluso'r cam o barchu cyfrinachedd. Yn ogystal, byddai GOC yn gallu adolygu'r protocol cwynion (neu ddiffyg protocol o'r fath) a sut y cafodd cwynion blaenorol eu rheoli.

Atodiad i atodiad 5: Pwerau gosod dirwyon rheoleiddwyr eraill

160. Wrth ddatblygu ein dull gweithredu, rydym wedi ystyried sut y gweithredir cosbau ariannol mewn amrediad o sectorau eraill a gaiff eu rheoleiddio.
161. Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) yn ystyried y trosiant domestig blynyddol, gyda'r uchafswm wedi'i osod ar bump y cant, fodd bynnag, mewn achosion prin, gallant godi dirwy uwch neu wyro o'r metrig hwn. Mae lefel y ddirwy yn dibynnu ar y math o bractis neu gwmni, felly gall y ddirwy amrywio o uchafswm o £25,000 i rai busnesau, i uchafswm o £50 miliwn ar gyfer unigolyn neu £250 miliwn ar gyfer 'strwythurau busnes amgen'³². Gallant hefyd atgyfeirio achosion at y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr sy'n gallu rhoi dirwy ddiderfyn. Bydd yr SRA yn ystyried, er enghraifft, unrhyw ffactorau gwaethgol neu liniarol. Yn ddiweddar, rhoddwyd pwerau dirwyo diderfyn i'r SRA ar gyfer achosion penodol o dorri amodau sy'n ymwneud â throeddau economaidd, ac mae wedi gwneud cyflwyniadau i'r llywodraeth i roi pwerau dirwyo diderfyn iddo mewn perthynas â phob achos o dorri ei reolau³³.
162. Gall y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) roi dirwyon diderfyn. Mae'n ystyried maint/adnoddau ariannol a nerth ariannol cwmni, er enghraifft, fel y nodir gan gyfanswm y trosiant. Fodd bynnag, unwaith eto, ceir rhywfaint o hyblygrwydd ac os nad yw'r refeniw yn briodol, gellir defnyddio mesurau eraill, er enghraifft, lefel proffidioldeb ei bartneriaid neu ei gyfran o'r farchnad. Gallant hefyd ystyried ffactorau eraill, er enghraifft, difrifoldeb y toriad, bwriadoldeb, effaith y toriad, a oedd yn ddigwyddiad untro neu a ddigwyddodd fwy nag unwaith/parhaus ac os felly, hyd y cyfnod hwn, toriadau blaenorol a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd eto³⁴.
163. Bellach, gall Asiantaeth yr Amgylchedd roi dirwyon ariannol diderfyn i gwmnïau sy'n llygru'r amgylchedd. Yn 2023, gwareddwyd y cap blaenorol o £250,000 ar Gosbau Ariannol Newidiol, gan ganiatáu i Asiantaeth yr Amgylchedd sicrhau bod cwmnïau dŵr a throeddwyr eraill yn atebol am ystod ehangach o droeddau. Mae'r cosbau a roddir yn gymesur â maint y cwmni a natur y drosedd, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dedfrydu³⁵.
164. Gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth roi dirwy o hyd at £17.5 miliwn neu bedwar y cant o gyfanswm trosiant byd-eang yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, pa bynnag swm yw'r uchaf. Mae'n ystyried trosiant fel un rhan o bennu lefel y ddirwy, ond mae hefyd yn ystyried difrifoldeb y toriad, ffactorau

³² SRA | Dull gweithredu ar gyfer cosbau ariannol | Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr

³³ Ymgynghoriad Cosbau Ariannol – datblygu ein fframwaith ymhellach (sra.org.uk)

³⁴ Polisi Sancsiynau (AEP) Ionawr 2022 (frc.org.uk)

³⁵ Cyflwyno cosbau diderfyn ar gyfer y rhai sy'n llygru'r amgylchedd – GOV.UK (www.gov.uk)

gwaethybol neu liniarol, ac a yw'r lefel yn effeithiol, yn gymesur ac yn anghymhellol³⁶.

165. Gall Ofwat roi cosb ariannol o hyd at ddeg y cant o drosiant blynyddol ond bydd hefyd yn ystyried, er enghraifft, difrifoldeb a hyd y toriad, methiannau dro ar ôl tro, cydweithredu gyda'r ymchwiliad a hysbysu o'r toriad, unrhyw ymgais i gelu, unrhyw gamau i roi sylw i'r methiant a chynnig gwneud iawn i gwsmeriaid³⁷.
166. Gall Ofgem roi dirwy ariannol o hyd at ddeg y cant o drosiant blynyddol. Byddant hefyd, er enghraifft, yn asesu difrifoldeb y methiant, ffactorau gwaethybol a liniarol, yr effaith ar ddefnyddwyr neu eraill, ac a ddylai'r gosb atal toriadau yn y dyfodol³⁸.

³⁶ Cyfrifo swm briodol y ddirwy | ICO

³⁷ Ein dull wrth orfodi – Ofwat

³⁸ DATGANIAD POLISI YR AWDURDOD MARCHNADOEDD NWY A THRYDAN MEWN PERTHYNAS Â CHOSBAU ARIANNOL A GWNEUD IAWN I DDEFNYDDWYR DAN DDEDDF NWY 1986 A DEDDF TRYDAN 1989 (ofgem.gov.uk)

Atodiad 6: Gwneud iawn i ddefnyddwyr

Cefndir

167. Rydym yn dymuno sicrhau bod defnyddwyr yn gallu manteisio ar ffordd briodol o gael camau cywiro y tu allan i system y llysoedd, fel y rhoddir sylw i'w pryderon a bod busnesau yn cael eu cynorthwyo i reoli'r materion hynny.
168. Mae Adran 32(1)(a) y Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ni neilltuo arian i unrhyw unigolyn neu gorff "a gaiff ei sefydlu i ymchwilio i neu i ddatrys cwynion gan ddefnyddwyr ynghylch cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gan gofrestreion". Er 2014, mae'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol (OCCS) wedi darparu gwasanaeth cyfryngu annibynnol ac am ddim i ddefnyddwyr a busnesau.
169. Mae'r OCCS yn wasanaeth a barchir ac sy'n gweithredu mewn ffordd lwyddiannus iawn trwy gynnig ffordd gyflym ac anffurfiol o wneud iawn am gost gymharol isel. Dros y ddegawd ddiwethaf, mae wedi delio â dros 14,000 o ymholiadau³⁹ ac mae wedi sicrhau perfformiad da yn gyson. Fodd bynnag, mae angen i ni ystyried ai'r trefniadau presennol yw'r rhai gorau o hyd o ystyried y newidiadau yr ydym yn eu cynnig i'r tirlun rheoleiddio busnes a'r disgwyliadau presennol o'r hyn y dylai cynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr ei ddarparu.
170. Mae'r papur hwn yn ystyried dau ddewis allweddol sy'n gydberthnasol ond y dylid eu hystyried yn annibynnol hefyd: a ddylai cymryd rhan yn OCCS fod yn rhywbeth gorfodol i fusnesau optegol; ac a ddylai OCCS fod yn gallu gwneud penderfyniadau rhwymol. Ystyrir dewisiadau ynghylch llywodraethu a chyllid hefyd.

Sbectrwm modelau datrys anghydfodau

171. Dull amgen o ddatrys anghydfod (ADR) yw'r broses o ddatrys anghydfod, fel arfer rhwng dau barti, y tu allan i system y llysoedd. Mae modelau ADR yn eistedd ar hyd sbectrwm, ac maent yn cynnwys:
- cymodi – lle y mae trydydd parti annibynnol yn gwneud awgrymiadau gweithredol neu'n cynnig eu barn am sut i ddatrys yr achos⁴⁰;
 - cyfryngu – mae trydydd parti annibynnol yn helpu'r partïon sy'n cael yr anghydfod i ddod i ganlyniad sy'n dderbyniol i bawb. Ni fydd y penderfyniad yn rhwymo mewn cyfraith ac felly, ni ellir ei orfodi ar unrhyw

³⁹ Darparwyd y ffigur gan OCCS

⁴⁰ [models-alternative-dispute-resolution-report-141031.pdf \(legalombudsman.org.uk\)](https://www.legalombudsman.org.uk/models-alternative-dispute-resolution-report-141031.pdf)

barti, er y gall y partiön benderfynu llofnodi cytundeb setliad i gadarnhau canlyniad sy'n rhwymo mewn cyfraith;

- dyfarnu – cyflawnir hwn trwy wasanaeth ombwdsmon⁴¹ fel arfer, y mae sawl un ohonynt yn bodoli ar gyfer y sectorau preifat a chyhoeddus. Mae cynlluniau ombwdsmon yn amrywio, ond fel arfer, maent yn seiliedig ar ddull gweithredu holgar lle y byddent yn casglu gwybodaeth, yn ymchwilio i'r pryder ac yn gwneud penderfyniad rhwymol am y masnachwr (ni fyddai'r penderfyniad ar y defnyddiwr yn rhwymol, felly byddai modd i'r defnyddiwr fynd i lys hawliadau bychain o hyd). Gallant hefyd gynnig cyngor a cheisio "datrys, cymodi neu gyfryngu anghydfodau"⁴², yn hytrach na symud i ddyfarniad yn syth, er mwyn annog cyfranogwyr i ddod i gytundeb. Yn gyffredinol, mae gan gynlluniau ombwdsmon rôl ehangach y tu hwnt i ddatrys anghydfodau, gan helpu i godi safonau mewn diwydiant trwy ddefnyddio cwynion i amlygu materion systemig mewn sector; neu
- gymrodeddu – bydd trydydd parti annibynnol yn ystyried y ffeithiau ac yn gwneud penderfyniad sy'n rhwymo un parti neu'r ddau ohonynt mewn cyfraith. Byddai modd gorfodi hwn yn yr un modd â dyfarniad llys⁴³.

172. Mae llywodraethau wedi annog busnesau ers tro i ddefnyddio ADR i ddatrys anghydfodau gyda defnyddwyr ac mae amrywiaeth o gynlluniau ADR sy'n eistedd ar y sbectrwm uchod yn gweithredu yn y DU ar draws sectorau a gaiff eu rheoleiddio⁴⁴.

173. Bydd Deddf Marchnadoedd Digidol, Defnyddwyr a Chystadleuaeth 2024 yn dirymu ac yn disodli deddfwriaeth UE a'i nod yw gwella gwasanaethau ADR trwy gyfrwng penderfyniadau cyflymach, heb yr angen am ymglyfreitha. Yn y dyfodol, bydd angen i ddarparwyr gwasanaeth datrys anghydfodau defnyddwyr fod yn achrededig (oni bai eu bod wedi cael eu heithrio neu eu bod yn destun trefniadau arbennig) gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn meini prawf penodedig⁴⁵. Bydd OCCS yn dod dan gwmpas y gyfundrefn hon ar ôl gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Y system bresennol o wneud iawn i ddefnyddwyr

174. Mae'r OCCS yn wasanaeth cyfryngu annibynnol ac am ddim sy'n gallu cynorthwyo gyda chwynion am y nwyddau a gafwyd (sbectolau, lensys cyffwrdd, ac ati) a/neu'r gwasanaeth a ddarparwyd. Mae prif nodweddion y cynllun yn cynnwys:

⁴¹ Cwyno i ombwdsmon – Cyngor ar Bopeth

⁴² [models-alternative-dispute-resolution-report-141031.pdf \(legalombudsman.org.uk\)](https://www.legalombudsman.org.uk/models-alternative-dispute-resolution-report-141031.pdf)

⁴³ Beth yw Dull amgen o ddatrys anghydfod (ADR)? – Which?

⁴⁴ Dull amgen o ddatrys anghydfod i ddefnyddwyr – GOV.UK (www.gov.uk)

⁴⁵ [Cryfhau gorfodi ar gyfer defnyddwyr a datrys anghydfodau: briff crynodeb polisi – GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

- mae OCCS yn hollol ddiuedd ac mae'n ystyried pob cwyn mewn ffordd deg;
 - mae OCCS yn gwrando ar gwynion, mae'n casglu gwybodaeth ac mae'n gweithio gyda'r ddau barti i wneud penderfyniad teg. Cynlluniwyd y gwasanaeth i atal uwchgyfeirio dianghenraid – mae'n cynnig y cyfle i bartïon gyfathrebu eu cwynion mewn ffordd glir a chymryd rhan mewn deialog sy'n canolbwyntio ar wneud penderfyniad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr;
 - gall penderfyniad gynnwys ymddiheuriad, triniaeth adferol, ad-daliad neu atgyfeirio i weithiwr proffesiynol arall. Nid oes gan OCCS unrhyw bwerau ffurfiol i orfodi setliad a gall defnyddwyr ganlyn llwybr ymglyfreitha o hyd os na fyddant yn fodlon â'r datrysiad a gynigir; ac
 - mae ein perthynas gydag OCCS yn sicrhau bod yr holl weithgarwch cyfryngu yn cael ei lywodraethu a'i hysbysu gan y rheoliadau diweddaraf.
175. Mae [adroddiad blynyddol OCCS 2023-24](#) yn cofnodi bod y gwasanaeth wedi delio â 1,675 o gwynion yn ei gylch gwaith, a llwyddwyd i ddatrys neu gwblhau 85% o'r rhain o fewn ei broses. Llwyddwyd i gwblhau 51% o'r holl achosion mewn 0-45 diwrnod, a chwblhawyd 76% o fewn 90 diwrnod, gydag amser datrys cyfartalog o 19 diwrnod. O blith y 349 o gwynion a oedd wedi symud ymlaen i gamau cyfryngu, cwblhawyd 275 (79%) gyda chymorth cyfryngu. Y cyfnod cyfartalog er mwyn cyfryngu cwyn oedd 58 diwrnod⁴⁶.
176. Mae GOC yn comisiynu OCCS trwy gyfrwng ymarfer tendro cystadleuol rheolaidd. Ailbenodwyd Nockolds Resolution yn ddarparwr OCCS yn gynharach eleni. Mae'r contract presennol yn rhedeg tan 31 Mawrth 2027, ac mae'n werth tua £840,000 dros dair blynedd. Ni chodir tâl am gael defnyddio'r cynllun, felly caiff ei ariannu'n llawn gan ffioedd cofrestreion busnes ac unigol.
177. Er nad oes yn rhaid i gofrestreion busnes ddefnyddio'r OCCS na derbyn y canlyniadau a awgrymir, mae ein Safonau ar gyfer Busnesau Optegol yn mynnu bod cofrestreion yn sicrhau bod defnyddwyr yn ymwybodol o'u sianelau cwyno, gan gynnwys OCCS. Ni chaiff busnesau nad ydynt wedi cofrestru gyda GOC ddefnyddio OCCS.

Cynlluniau gwneud iawn eraill i ddefnyddwyr ym maes rheoleiddio gofal iechyd

178. Mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ariannu [Gwasanaeth Cwynion Deintyddol](#) diduedd ac am ddim at ddibenion delio â chwynion gan ddefnyddwyr am ofal, gwasanaethau neu driniaeth ddeintyddol breifat nad

⁴⁶ Yn adroddiad blynyddol 2022-23, o blith y 6% o achosion a gwblhawyd heb benderfyniad, awgrymwyd bod hyn yn ymwneud â defnyddwyr yn ymrwymo mwy i benderfyniad ariannol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau masnachol yn amharod i gynnig neu gynyddu penderfyniadau ariannol mewn gwirionedd.

ydynt yn cael eu cynnwys yn y cylch gwaith addasrwydd i ymarfer. Gallant gynorthwyo gyda chwynion am driniaeth a ddarparwyd yn ystod y 12 mis diwethaf a gallant gynorthwyo achwynwyr sy'n ceisio esboniad/ymddiheuriad, ad-daliad llawn neu rannol, triniaeth adferol a/neu gyfraniad at driniaeth adferol.

179. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw rai o'r rheoleiddwyr gofal iechyd eraill yn ariannu cynlluniau gwneud iawn i ddefnyddwyr. Mae'r Cyngor Ciropracteg Cyffredinol yn atgyfeirio aelodau'r cyhoedd i Gyngor ar Bopeth am unrhyw gwynion sydd y tu hwnt i gwmpas addasrwydd i ymarfer.

Dadansoddiad

A ddylai fod yn orfodol i gofrestreion busnes GOC gymryd rhan yn OCCS?

180. Mae angen i ni ystyried:

- a ddylai barhau i fod yn rhywbeth dewisol i fusnesau gymryd rhan yn OCCS; neu
- a ddylid symud i system lle y mae'n orfodol i fusnesau gymryd rhan yn OCCS. Byddai gofyniad i gymryd rhan yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth, a byddai cyfeiriad yn cael ei wneud iddo yn Safonau i Fusnesau Optegol GOC. Fel nawr, byddai gofyn i'r busnes atgyfeirio i'r cynllun ar ôl cwblhau haen gyntaf⁴⁷ y broses gwyno i ddefnyddwyr.

181. Rydym yn barnu mai deddfwriaeth, yn hytrach na'n safonau proffesiynol, fyddai'r llwybr mwyaf priodol i orfodi cyfranogiad os mai hwn yw'r model yr ydym yn ei ffafrio. Byddai angen i gynllun gorfodol gael sylfaen statudol, fel y maent mewn sectorau eraill. Byddai'n annhebygol y byddem yn gallu gorfodi safon am gyfranogiad gorfodol lle nad oes gan y cynllun sylfaen statudol.

182. Mae prif fanteision symud i system lle y mae'n orfodol i fusnesau optegol sydd wedi cofrestru gyda GOC i gymryd rhan yn y cynllun yn cynnwys:

- byddai sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr yn gallu manteisio ar drefniadau gwneud iawn y tu allan i system y llysoedd yn gwella diogelwch y cyhoedd ac yn cynyddu hyder y cyhoedd;
- mae ei gwneud yn orfodol i bob busnes sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig i gofrestru gyda GOC, a'i wneud yn rhywbeth dewisol iddynt gymryd rhan yng nghynllun gwneud iawn y sector ar yr un pryd, yn anghyson, a byddai'n peri dryswch i ddefnyddwyr;
- er bod cyfranogiad gwirfoddol busnesau sydd wedi cofrestru gyda GOC yn OCCS yn uchel ar hyn o bryd, efallai na fyddai hyn yn digwydd hefyd, o

⁴⁷ Mae delio â chwynion ar yr haen gyntaf yn cyfeirio at fusnesau yn datrys cwyn yn lleol o fewn y busnes.

leiaf i'r un graddau, gyda busnesau sydd y tu hwnt i drefniadau rheoleiddio GOC ar hyn o bryd;

- sicrhau cysondeb ac amgylchedd masnachu teg ar draws y sector oherwydd y byddai'r holl fusnesau optegol yn destun yr un gofynion ac yn gwneud cyfraniad ariannol i redeg y cynllun;
- creu cymhellion cryf ar gyfer ymddygiad da yn y farchnad a systemau delio â chwynion haen gyntaf effeithiol ar draws yr holl fusnesau optegol; a
- chynnig trosolwg ar draws y sector o dueddiadau a materion defnyddwyr, gan alluogi sail fwy cadarn ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio er mwyn gwella arfer ar draws y diwydiant, yn unol â strategaeth GOC o atal niwed trwy gyfrwng rheoleiddio ystwyth.

183. Mae'r prif anfanteision o symud i system lle y mae'n orfodol i fusnesau gymryd rhan yn OCCS yn cynnwys:

- gallai newid system sy'n gweithio'n dda gael canlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, gallai beri i OCCS fod yn fwy gwrthwynebol o ran ei natur, gan symud busnesau i ffwrdd o ddiwylliant o ddysgu a gwella o bosibl;
- gellid dadlau bod gwneud cyfryngu yn rhywbeth gorfodol yn mynd yn groes i hanfod cyfryngu fel proses, lle y mae partïon yn ymgysylltu â hi o'u gwirfodd ac mewn ffordd adeiladol er mwyn datrys anghydfod. Gallai hyn arwain at gyfran is o achosion yn cael eu datrys, gan danseilio hyder y cyhoedd yn y system;
- gallai fod cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau addasrwydd i gynnal busnes gyda chostau cysylltiedig os na fydd busnesau yn cymryd rhan, er ein bod yn disgwyl y byddai'r tebygolrwydd o fusnes yn torri ein safonau (a'r gyfraith) trwy fethu cymryd rhan, yn brin, o ystyried posibilrwydd sancsiynau; a
- gallai busnesau leihau eu hadnodd mewnol ar gyfer delio â chwynion er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o'r cynllun gorfodol. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i ddefnyddwyr ddilyn y llwybr haen gyntaf o hyd cyn manteisio ar OCCS ac mae ein safonau proffesiynol yn rhoi sylw i safonau delio â chwynion haen gyntaf. Bydd cymhellion i enw da busnesau o hyd i ddatrys cwynion mewn ffordd anffurfiol heb droi at OCCS.

184. Ein safbwynt ar hyn o bryd yw y dylai cymryd rhan yn OCCS fod yn rhywbeth gorfodol i'r holl gofrestreion busnes. Byddai hyn yn gwella diogelwch ar gyfer y cyhoedd ac yn darparu'r amgylchedd masnachu tecaf i fusnesau. Rydym yn barnu bod risgiau sy'n ymwneud â chreu cynllun mwy gwrthwynebol yn fwy perthnasol i faterion ynghylch pwerau gwneud penderfyniadau y cynllun. Er

bod lefelau cyfranogi gwirfoddol yn y cynllun yn uchel, nid yw hi'n glir a fydd hyn yn parhau i fod yn wir pan gaiff mwy o fusnesau eu dwyn i mewn o fewn cwrpas y gwaith rheoleiddio.

A ddylai OCCS gael pwerau i wneud penderfyniadau sy'n rhwymo?

185. Ar ôl datrys mater cyfranogi, mae angen i ni ystyried a ddylem:

- barhau gyda system sy'n seiliedig ar gyfyngu lle y gall busnesau ddewis cydymffurfio â'r canlyniad a argymhellwyd; neu
- symud i system lle y gall OCCS wneud penderfyniadau sy'n rhwymo busnesau – cynllun dyfarnu. Fel yr uchod, byddai sail statudol i allu OCCS i wneud penderfyniadau sy'n rhwymo, a dim ond ar ôl dilyn y llwybr haen gyntaf y byddai modd i ddefnyddwyr fanteisio ar OCCS. Byddai OCCS yn rhoi cynnig gyfyngu o hyd er mwyn ceisio datrys anghydfodau, gan gynnal ymchwiliadau a gwneud penderfyniadau lle y bydd hyn yn methu yn unig.

186. Mae prif fanteision cynllun sy'n gallu gwneud penderfyniadau sy'n rhwymo yn cynnwys:

- caiff defnyddwyr eu diogelu yn well gan bod corff annibynnol wedi ymchwilio i'w hanghydfod a gall wneud penderfyniad sy'n rhwymo mewn cyfraith;
- gallai hyder yn OCCS gael ei danseilio pe bai gofyn i fusnesau gymryd rhan yn y cynllun, ond gallant ddiystyru ei ganlyniad a argymhellir;
- mae defnyddwyr yn fwy tebygol o fanteisio ar gynllun gwneud iawn os ydynt yn gwybod ei fod yn gallu gwneud penderfyniadau sy'n rhwymo, gan waredu rhwystr er mwyn gwneud cwynion;
- sicrhau cysondeb ar draws y sector gan na fyddai modd i sefyllfa fodoli mwyach lle y mae rhai busnesau yn cynnig gwneud iawn ac nid yw eraill; a
- byddai'n cadw anghydfodau defnyddwyr allan o'r llysoedd, gan gynnig dewis amgen cyflymach, rhatach a mwy preifat i ddefnyddwyr a busnesau.

187. Mae prif anfanteision cynllun o'r fath yn cynnwys:

- gallai newid cynllun sy'n gweithio'n dda gael canlyniadau anfwriadol, gan arwain at OCCS yn cael ei ystyried fel corff o natur cosbol a gwrthwynebol, gan newid y ffordd y mae busnesau yn ymgysylltu â'r cynllun ac yn ymateb i ganfyddiadau;

- gwneud y gwahaniaeth rhwng datrys anghydfodau ac addasrwydd i ymarfer yn aneglur, oherwydd y byddai gofyn i OCCS ffurfio barn ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd;
- mae profiad yn awgrymu bod cynlluniau dyfarnu yn arafach, yn fwy ffurfiol ac yn fwy costus o ystyried yr amser y mae'n debygol y byddai ymchwiliad yn ei gymryd i gasglu ac ystyried tystiolaeth o fewn fframwaith rheolau cynllun. Er y byddai OCCS yn rhoi cynnig ar gyfryngu yn y lle cyntaf, efallai y byddai rhai defnyddwyr yn mynnu cael ymchwiliad llawn a phenderfyniad, er gwaethaf y ffaith nad yw hi'n debygol iawn y byddai'r canlyniad yn wahanol;
- gallai fod cynnydd mewn atgyfeiriadau addasrwydd i gynnal busnes os na fydd busnesau yn cydymffurfio â phenderfyniadau a wneir gan y cynllun, er ein bod yn disgwyl i ddiffyg cydymffurfiaeth fod yn isel o ystyried risg sancsiynau; ac
- fel yr uchod, gallai busnesau leihau eu hadnodd mewnol ar gyfer delio â chwynion yn ystod yr haen gyntaf, gan ddibynnu ar OCCS i wneud penderfyniad. Fodd bynnag, am resymau sy'n ymwneud â'r gost ac enw da, byddai er budd pennaf busnesau i ddatrys cwynion yn yr haen gyntaf, pryd bynnag y bo modd.

188. Rydym o'r farn bod y cydbwysedd rhwng y dewis o ran cynlluniau gwneud iawn yn un agos. Er y byddai cynllun sy'n gallu gwneud penderfyniadau sy'n rhwymo yn cynnig diogelwch cryfach i'r cyhoedd, byddai holl ddefnyddwyr y cynllun (defnyddwyr a busnesau) yn colli allan pe bai hi'n cymryd yn hirach i ddatrys anghydfodau ac maent yn fwy costus i'w rheoli. Mae angen pwysu a mesur y berthynas rhwng penderfyniad OCCS a'n prosesau addasrwydd i ymarfer yn ofalus. Nid ydym yn cynnig dewis a ffafir ar yr adeg hon, a hoffem glywed safbwyntiau rhanddeiliaid cyn penderfynu ar yr hyn i'w argymhell i'r llywodraeth.

Sut ddylid cyflwyno unrhyw gynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr?

189. Beth bynnag fo ein system o wneud iawn i ddefnyddwyr, byddai modd ei gyflwyno yn y ffyrdd canlynol:
- creu sefydliad statudol (fel ombwdsmon) – byddai hyn yn golygu perswadio'r llywodraeth o'r angen i greu sefydliad o'r fath oherwydd y byddai gofyn cael deddfwriaeth a chynllun ariannu ar wahân o bosibl. Fodd bynnag, gallai'r cam o greu sefydliad statudol fod yn un anghymesur o ystyried nifer gymharol isel y cwynion, a'u gwerth;
 - un darparwr trwy fodel cystadleuaeth *am* y farchnad (ar wahân i GOC, lle y byddem yn hysbysebu tendr agored ac yn dewis darparwr ar sail set o

feini prawf) – hwn yw sylfaen ein model presennol ac mae'n golygu y byddai gofyn i bob busnes ddefnyddio'r sefydliad penodedig. Mae manteision y model hwn yn ymwneud â chynnig cymhelliant i'r darparwr berfformio'n dda a sicrhau gwerth am arian; neu

- ddarparwyr lluosog trwy fodel cystadleuaeth yn y farchnad (ar wahân i GOC, lle y byddem yn hysbysebu tendr agored ac yn cymeradwyo amrediad o sefydliadau y byddent yn gallu darparu gwasanaeth a byddai'r busnes yn dewis pa un i gymryd rhan ynddo) – hwn fyddai'n creu'r dewis mwyaf i'r busnes ond nid yw hi'n glir a fyddai angen cael mwy nag un darparwr o ystyried nifer gymharol isel y cwynion a ystyrir gan OCCS ar hyn o bryd (o'u cymharu â diwydiannau eraill y gallent fod yn ystyried degau ar filoedd o gwynion). Nid yw hi'n glir ychwaith pa fudd y byddai hyn yn ei gynnig i gleifion, oherwydd y gallai beri dryswch i gleifion (byddai angen iddynt gael eu hatgyfeirio at fwy nag un darparwr), mae'n creu risgiau o ran anghysondeb a byddai'n fwy cymhleth i'w weinyddu.

190. Ein safbwynt ar hyn o bryd yw y dylem barhau i weithredu model cystadleuaeth am y farchnad, sydd wedi gwasanaethu'r sector yn dda am ddegawd.

Sut ddylid ariannu unrhyw gynllun gwneud iawn i ddefnyddwyr?

191. Byddai angen i ni ystyried sut y byddai unrhyw gynllun yn cael ei ariannu (gan adlewyrchu hyn mewn ffordd briodol mewn deddfwriaeth wedi'i diweddarau), a'r prif ddewisiadau yw:

- pob busnes yn cyfrannu trwy'r ffi gofrestru;
- model talu fesul defnydd/achos, lle y mae'r busnes yn talu am unrhyw gŵyn a wneir yn eu herbyn, a ystyrir gan y cynllun; neu
- gyfuniad o'r ddau fodel uchod – byddai angen i GOC benderfynu ar ddyraniad incwm a dargedir rhwng ffioedd cofrestru a ffioedd achos.

192. Ni fyddem yn ystyried model lle y byddai'n rhaid i'r defnyddiwr dalu am gynllun, gan ein bod yn barnu y byddai hyn yn rhwystr sylweddol ar gyfer gwneud iawn i ddefnyddwyr ac nid yw'n hysbys bod y diwydiant yn profi hawliadau gwacsaw.

193. Pob busnes yn cyfrannu trwy'r ffi gofrestru fyddai'r model hawsaf i'w ddarparu, mae modd rhagweld y cyllid ac mae'n adlewyrchu'r trefniadau presennol. Os ydynt yn defnyddio'r cynllun neu beidio, mae pob busnes yn cael budd o'r hyder ychwanegol ymhlith defnyddwyr y mae llwybr gwneud iawn yn ei gynnig.

194. Mantais y model talu fesul defnydd yw ei fod yn cymell ymddygiad da sy'n osgoi anghydfodau yn y lle cyntaf, gan annog datrys anghydfodau yn yr haen gyntaf. Fodd bynnag, gan bod gan ddefnyddwyr hawl mynediad ac mae'r gwasanaeth ar gael iddynt am ddim, gall hyn gosbi busnesau nad ydynt wedi

gwneud unrhyw beth o'i le, mewn ffordd annheg, ond eto, gwneir cwynion yn eu herbyn. Efallai y bydd busnesau yn gwneud penderfyniad masnachol i wneud iawn i ddefnyddiwr ar yr haen gyntaf yn hytrach na mentro cael canlyniad niweidiol trwy'r cynllun gwneud iawn. Mae rhai cynlluniau gwneud iawn yn ceisio goresgyn hyn trwy beidio codi ffioedd pan na fydd y busnes ar fai, ond mae hyn yn golygu bod llai o fusnesau yn talu (felly mae'r gost fesul achos yn ddrytach) ac mae'n ei gwneud hi'n anos ac yn rhagweladwy i'r cynllun weinyddu.

195. Ceir dadl os ydym yn cofrestru'r holl fusnesau sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig, gan bod OCCS yn wasanaeth busnes-i'r-defnyddiwr, dylid ariannu ei holl gostau trwy'r ffi cofrestrai busnes, yn hytrach nag o gymysgedd o incwm ffioedd cofrestreion busnes ac unigol. Ceir pryder gan rai busnesau sydd eisoes wedi cofrestru gyda GOC y gallai eu ffi gofrestru godi pe bai OCCS yn ehangu. Fodd bynnag, gan roi mater dosbarthu o'r neilltu, mae'r gost o redeg OCCS fesul busnes yn debygol o leihau o ganlyniad i arbedion maint. Byddwn yn ystyried dosbarthu ffioedd ymhellach fel rhan o waith ehangach a gynlluniwyd ar ein dull gweithredu cyffredinol tuag at ffioedd cofrestreion.
196. Gofynnem i Europe Economics ystyried y costau o gymryd rhan mewn cynllun cyfryngu gorfodol. Roedd eu hadroddiad yn 2023 ynghylch [Mapio busnesau optegol](#) yn amcangyfrif na fyddai rheoleiddio'r holl fusnesau optegol sy'n darparu swyddogaethau cyfyngedig penodedig yn arwain at fusnesau yn wynebu costau ychwanegol. Roeddent yn barnu: "Er y byddai busnesau yn wynebu rhai costau sy'n ymwneud â datrys cwynion a ddaeth trwy OCCS, mae'n debygol y byddent wedi gorfod delio â'r cwynion beth bynnag. Yn wir, gallai gwasanaeth cyfryngu OCCS leihau'r amser y bydd busnesau yn ei dreulio yn delio â chwynion gan bod y gwasanaeth yn rhoi cymorth i'r cwsmer a'r busnes, gyda'r nod o sicrhau datrasiad cyflym."
197. Rhagwelodd Europe Economics y byddai'r costau gwasanaeth uwch parhaus i OCCS yn fach iawn (cynnydd o ddeg y cant mewn llwyth achosion, a gostiwyd i fod yn £24,000), oherwydd y byddai rhan fwyaf y busnesau ychwanegol a fyddai'n cofrestru gyda GOC eisoes yn cynnwys optometryddion ac optegwyr cyflenwi, felly byddent eisoes yn dod dan gylch gwaith OCCS.
198. Ein safbwynt ar hyn o bryd yw y dylem barhau gyda'r trefniadau ariannu presennol ar gyfer OCCS. Hon yw'r system symlaf i'w gweinyddu, a'n safonau ni yw'r ysgogydd gorau er mwyn delio ag unrhyw amrywioldeb mewn gweithgarwch delio â chwynion haen gyntaf gan fusnesau. Fel yr uchod, byddwn yn ystyried y materion hyn ymhellach yn ein gwaith ehangach a gynlluniwyd ar fodel ffioedd tecach ar gyfer yr holl gofrestreion.